

ECO'R WYDDFA

Rhif 157

EBRILL 1990

Pris 25c

GLYNLLIFON — 'HELO'

Mis Mawrth yw mis eisteddfodau cylch a sir yr Urdd. Eleni, oherwydd fod y Genedlaethol ar steipan ein drws yng Nglynllifon, bu mwy nag erioed o gystadlu, a pharhaodd sawl eisteddfod am dros ddeuddeng awr. Ar y dudalen flaen y mis hwn, llongyfarchwn y bobl ieuanc rheini sydd eisoes wedi ennill eu lle yng Nglynllifon, sef y rhai rhwng 12 a 15 oed. Gobeithio y bydd mwy o lwyddiant yn eu haros yno.

Llongyfarchwn hefyd yr hyfforddwyr a fu wrthi mor ddiwyd yn eu paratoi am wythnosau lawer cyn y cystadlu. Rhoddant oriau o waith gwirfoddol i'r paratoi, a'u gwobr yw gweld eu disgyblion yn llwyddo. Mae'r 'Eco' yn ddiolchgar iddynt am eu llafur diflino i gynnal traddodiad.

Roedd cistoddod y sir i oedran ysgolion cynradd yn cael ei chynnal yn ystod cyfnod gosod yr 'Eco', felly nid oedd yn bosibl cynnwys lluniau holl enillwyr yr eisteddfod honno.



Elin Gwilym o'r Waunfawr a ddaeth yn fuddugol ar y gystadleuaeth adrodd i rai rhwng 12 a 15 oed.



Parti Dawnsio Gwerin Llanrug a ddaeth â dwy wobwr gyntaf yn ôl i'r pentref.



Pedwarawd Deiniolen gyda'u hyfforddwr Mr Hefin G. Jones, a ddaeth yn fuddugol yng nghystadleuaeth yr ensemble i rai dan 15 oed.



Gwenan Mair Roberts (cyntaf ar yr unawd llinynnol) a Catrin Thomas (cyntaf ar y ddawns werin unigol), y ddwy o Lanrug yn ymlacio wedi'r cystadlu.



Enillydd cyntaf y diwrnod, Eilir Williams o Ddeiniolen, ar yr unawd pres rhwng 12 a 15 oed.

GLYNRHONWY — 'GWDBEI'

Gyda llawenydd i lawer y daeth y newyddion fod Cwmni Leading Leisure am dynnu'n ôl — am resymau ariannol — o'r fenter yng Nglynrhonwy. Ond ni ddylai'r rhai sy'n pryderu am ddyfodol y safle laesu dwylo a chredu fod brwydrau'r gwrthwynebu drosodd. Rhaid cofio fod y safle yn parhau ym mherchnogaeth Cyngor Arfon, ac mai yn nwylo'r Cyngor hwnnw y bydd unrhyw benderfyniad ynglŷn â dyfodol Glyn Rhonwy.

Flynnyddoedd yn ôl, pan brynwyd safle'r hen chwarel gan Gyngor Arfon, gofynnodd Cyngorau Cymuned y fro am gynrychiolaeth ar yr Is-Bwyllgor a drafodai ddatblygu'r safle. Gwrthodwyd y cais. Yn wir, gwrthodwyd sawl cais, ac o ganlyniad i unlygeidiogrwydd y Cyngor yn bwrw ymlaen â chynllun anobeithiol o uchelgeisiol ac estron, prin fu cefnogaeth unrhyw gorff na chymdeithas iddynt. Ac er gwaethaf honiadau'r Cyngor iddynt gynnal ymgynghoriad llawn â'r cyhoedd, tenau ac arwynebol iawn fu hwnnw hefyd.

Â breuddwydion 'trofannol' y tyllau chwarel yn deilchion, dylai Cyngor Arfon ddeffro i deimladau, deisyfiadau a gobeithion pobl y fro hon am ddatblygiad synhwyrol yng Nglyn Rhonwy. A dylai datblygiad o'r fath gyfuno gwaith a hamdden, cyfleusterau i'r trigolion lleol yn ogystal ag i ymwelwyr. Ond yn anad dim, dylai'r datblygiad ddeillio o anghenion lleol, ac yn un fyddai'n cynnal yr economi lleol, yn hytrach na sugno arian i bocedi rhyw ddatblygwyr estron eraill.

£ ... £ ... £ ...

Yn y rhifyn nesaf ... cynnig egsgliwsif, hael, i ddarllenwyr Eco'r Wyddfa na welwyd erioed mo'i fath mewn unrhyw bapur bro. Felly cofiwch brynu rhifyn Mis Mai.

ECO'R WYDDFA

RHIF 157
EBRILL 1990

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon.

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru.

SWYDDOGION A GOHEBWYR GOLYGYDD NEWYDDION CYFFREDINOL:

Twrog Jones, Pros Kairon,
Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)

GOLYGYDD ERTHYGLAU:

Dafydd Whiteside Thomas, Bron-y-
Nant, Pontrhythallt, Llanrug (C'fon
3515)

GOLYGYDD NEWYDDION

PENTREFI:

Nant Roberts, Arwel, Pontrhythallt
(870760)

GOLYGYDD CHWARAEON:

Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun
(Llanberis 872407)

ECO'R IFANC:

Mrs Nan Humphreys, Pant Bryngwyn,
Tanycoed (C'fon 5668)

DYDDIADUR Y MIS:

Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach,
Llanrug (Waunfawr 200)

FFOTOGRAFFWYR:

Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon,
Llanrug (C'fon 4669)

Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug
(C'fon 77263)

TREFNYDD HYSBYSEBION:

John Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug
(C'fon 5605)

TREFNYDD GWERTHIANT:

Arwyn Roberts, Hafle, Ffordd yr Orsaf,
Llanrug (C'fon 5510)

TREFNYDD ARIANNOL:

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (C'fon 4839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST:

Mrs E Whiteside Thomas, Dolwar,
Llanrug (C'fon 4778)

GOHEBWYR PENTREFI: Dyma'r
bobl i gysylltu â nhw yn eich
ardaloedd.

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran,
(Portdinorwig 670726)

BRYNREFAIL: Miss Lowri Prys
Roberts, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Mrs Beryl Roberts,
Gerallt, Erw Wen (C'fon 3536)

CEUNANT: Gwenno Parri, Morwel
(Waunfawr 321)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (Llanberis 872275)

DEINIOLLEN: W O Williams, 6 Rhyd-
fadog, Deiniol (Llanberis 871259)

DINORWIG: Mr D J Thomas, 8 Maes
Eilian (870773)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion
Roberts, Becws Eryri, 870491.

LLANRUG: Mrs Dyfi Jones, Tyddyn
Rhuddallt (Caernarfon 76733)

NANT PERIS: Mrs Ann Fleming,
Dolwen, 8 Nant Ffynnon (871457)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans,
Sycharth (Llanberis 872407)

TAN-Y-COED: Miss Bethan Parry, Ael
y Bryn. (872 276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (Waunfawr 570).

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, EBRILL 26

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol

**NOS FAWRTH
EBRILL 17**

os gwelwch yn dda.

LLYTHYRAU

MYGU TRAFODAETH

Annwyl Syr,
Rhaid mynegi pryder ynglŷn â'r
modd dichellgar ac anghyson y
mae nifer o Gynghorwyr a
Swyddogion Arfon yn ceisio mygu
trafodaeth agored ar fater Glyn
Rhonwy. Nos Lun diwethaf roedd
gan y Cynghorydd Charles Wyn
Jones rybudd o gynnydd yn gofyn i'r
Cyngor llawn ystyried oblygiadau
cais cynllunio Glyn Rhonwy gan
ofyn iddo ystyried a ddylid mynd
ymlaen ai peidio.

Roedd nifer ohonom yn
bresennol yn yr oriel gyhoeddus â
diddordeb yn y mater. Wedi
eistedd yn amyneddgar am dros
dair awr gan wrando yn astud ar
y trafodaethau deallus oedd yn trin
popeth o goed Ewcaliptws y fro i
swyddogaeth Uchel Siryf y Sir yn
y bymthegfed ganrif a lleoliad y
gylchfan wair ger Neuadd y Dref
ym Mangor, dyma ddod o'r
diwedd at fater Glyn Rhonwy. Yn
ei ddoethineb, ni chaniataodd y
Maer i'r mater gael ei drafod o
gwbl. Hysbyswyd y Cynghorwyr
y byddai'r mater yn gorfod mynd
ymlaen i'r Pwyllgor Cynllunio
nesaf cyn ei drafod yn llawn.

Deallwn fod gan y Maer yr hawl
a'r awdurdod i ganiatau trafodaeth
agored ar y pwnc y noson honno

pe bai'n dymuno gwneud. Ni
chaniatawyd hyd yn oed i'r
Cynghorydd Charles Wyn Jones
gyflwyno'r araith a oedd wedi ei
pharatoi. Ni esboniwyd i'r cyhoedd
na'r Cynghorwyr paham y
gweithredwyd yn y fath ffordd
anghyson. Onid cwrteisi sylfaenol
fyddai cynnig esboniad dealladwy
am ei benderfyniad yn hytrach na
gweithredu fel rhyw Ceausescu
Cymreig? Onid yw hanes yn frith
o ddynion bach gyda grym sydd
wedi gweithredu yn yr un ysbryd?

Teg yw gofyn beth sydd yn
gwneud Glyn Owen, D. L. Jones
ac eraill mor bryderus ynglŷn â'r
mater yma? beth sydd ganddynt
i'w guddio tybed? Paham nad
ydynt yn dymuno i fater mor
bwysig gael ei drafod yn agored?
Os nad oes dim i'w guddio, yna pa
ddrwyg oedd treulio ychydig
funudau ychwanegol yn gwrando
ar farn Cynghorydd etholedig o'r
fro dan sylw? Oes rhywun all ein
goleuo ymhellach ynglŷn â'r
mater?

Yn gywir,
EMYR A DELYTH WYN TOMOS,
Tan-y-Cae,
Tanycoed,
Llanrug.

LLÊN GWERIN BRO'R ECO

Annwyl Olygydd,
Rwyf yn fyfyrwr yng Ngholeg
Prifysgol Cymru, bangor, yn
astudio Cymraeg, ac ar hyn o bryd
yn ymchwilio i mewn i Llen Gwerin
dalylch Eco'r Wyddfa. Rwyf yn
awyddus iawn i dderbyn
gwybodaeth am bynciau megis
hen goelion llafar gwlad, hen
draddodiadau, chwedlau, hen
ddywediadau, rhigymau,
hwiangerddi a straeon celwydd
golau sy'n gysylltiedig â dalylch
Eco'r Wyddfa. Byddwn yn
ddiolchgar iawn i unrhyw un a
allasai roi gwybodaeth i mi, a gore

oll pe byddai rhywun yn fodlon i mi
gael eu recordio yn adrodd rhai o'r
chwedlau a'r dywediadau hyn.

Tybed a oes gan rywun gopi o:
'LLÊN GWERIN SIR
GAERNARFON' gan Myrddin
Fardd, a 'WELSH FOLKLORE AND
FOLK LEGENDS' gan T. G. Jones,
a fyddai'n fodlon eu benthyg i mi.

Diolch yn fawr am bob
cydweithrediad.

Yr eiddoch yn gywir,
CATRIN LLOYD ROBERTS,
Merddyn Coch,
Ffordd Capel Coch,
Llanberis.

NOSON DEYRNGED
Dr Dan Rowland Hughes
Ysgol Brynrefail, Llanrug
Nos Iau, Ebril 5ed am 7.30
Hogia'r Wyddfa, Sian
Gibson, Clychau'r Grug

Trefnir bysiau o:-

Nant Peris/Llanberis - codi yn Brynrefail a Chwm-y-glo

Dinorwig/Deiniol - codi yng Nghlwt-y-bont a

Phenisarwaun

MYNEDIAD AM DDIM. CROESO CYNNES I BAWB

GALW UNFRYDOL AM DDEDDF IAITH GRYFACH

Annwyl Olygydd,
Mae'n gwbl amlwg wedi
cynhadledd yr Urdd yn
Aberystwyth ar Chwefror 24 pa
mor annigonol yw Mesur Drafft y
Bwrdd Iaith. Bu cryn feirniadu ar y
Mesur cyn y gynhadledd gan y
Fforwm Iaith a nifer o gyrff a
sefydliadau eraill yng Nghymru.
Sail y feirniadaeth oedd agwedd
glasdwraidd y Mesur: nid oedd dim
gwell, medd rhai, na chadarnhad
o sefyllfa'r Gymraeg fel ag y mae
heddiw.

Ac yn Aberystwyth dywedodd
y cynrychiolwyr, - dros 250
ohonynt, - gan gynnwys saith
Cyngor Sir a deunaw Cyngor
Dosbarth ynghyd â mudiadau o'r
Fforwm Iaith a nifer o gyrff eraill,
yn unfrydol, bod angen ar frys
Ddeddf Iaith Newydd llawer iawn
cryfach a mwy cadarnhaol na
Mesur Drafft y Bwrdd Iaith.

Yr oedd galw hefyd am Fwrdd
Iaith statudol yn gwbl annibynol
o'r Swyddfa Gymreig. Mae angen
ymestyn y ddeddf i gynnwys y
sector breifat yn ogystal â'r sector
gyhoeddus, ac y mae'n rhaid
sicrhau bod gan y ddeddf
ddannedd, sef yr hawl i fynd i'r
llysoedd, pe byddai'n rhaid, i
weithredu'r ddeddf.

Yr oedd Mr Peter Walker eisoes
wedi ymateb i'r feirniadaeth ar y
Mesur Draft drwy wahodd
sylwadau arno erbyn diwedd Ebrill.
Ond erys amheuaeth o
ddidwylledd y Swyddfa Gymreig.
Pe bai Mr Walker, (neu Mr John
Elfed Jones) wedi gwahodd
sylwadau pan gyflwynwyd y
Mesur Draft byddai digon o amser
i'w hystyried a chyflwyno'r Mesur
i'r Llywodraeth i'w gynnwys yn
araith y Frenhines ar gyfer y
sesiwn nesaf o'r Senedd, sef y
sesiwn olaf cyn yr etholiad
cyffredinol nesa. Ond wrth oedi a
gofyn am sylwadau cyn diwedd
Ebrill y mae'n rhy hwyr i gynnwys
y Mesur Drafft yn araith y
Frenhines, ac felly, heb bwysau
mawr ar y llywodraeth, ni ddaw
unrhyw fesur ar Ddeddf Iaith
Newydd o flaen y Tŷ Cyffredin tan
ar ôl yr etholiad cyffredinol nesaf,
a phwy a wŷr pwy fydd yn
llywodraethu erbyn hynny.

O gofio'r holl dactegau a
ddyfeisiwyd yn y gorffennol gan y
Swyddfa Gymreig i oedi ar fater
deddf iaith, nid yw'n syndod os
ydynt eto am geisio amddifadu'r
Cymry o'u hawl sylfaenol i gael
statws teilwng i'w hiaith drwy
chwarae rhyw 'dacteg oedi' fel
hyn. Galwn ar i bawb anfon at y
Swyddfa Gymreig a'r Bwrdd Iaith
i rwystro hyn.

ARIAL TOMOS,
Cadeirydd Pwyllgor y Wasg, Y
Fforwm Iaith
y/o Bronwylfa,
Llandwrog,
Caernarfon.

YN EISIAU

Gârd tân fawr
(expanding fire guard)

Iola Sellers,
13 Dôl Elidir,
Llanberis
(871 043)

Llafar

TRETH I HYBU'R MEWNLIPIAD?

Mae'r dreth a elwir yn gyffredinol yn 'dreth y pen' yn disodli'r hen ddull o drethu gwerth eiddo. Dros yr wythnosau diwethaf gwelwyd gwrthdystio cyhoeddus led-led Lloegr wrth i awdurdodau lleol bennu'r dreth am y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar y dydd cyntaf o Ebrill. Mae'r Dreth Gymunedol, a rhoi iddi ei henw cywir, yn sicr o fod yn un o ddeddfwriaethau mwyaf amhoblogaidd y llywodraeth Doriaidd bresennol - a hynny hyd yn oed ymhlith y Ceidwadwyr mwyaf brwd.

Er mai pwrpas y dull newydd hwn o drethu lleol yw diddymu'r hen drefn o drethu gwerth eiddo, eto'i gyd, yn anuniongyrchol, dyna'r union beth a wna - trethu eiddo, neu'n hytrach y gwerth y mae prynwr neu werthwr yn ei roi ar eiddo. Eisoes mae llefarydd ar ran Sefydliad Brenhinol y Syrffewyr Siartredig wedi datgan y gallai'r dreth hon effeithio ar brisiau tai. Dywed Peter Miller: *'The level of poll tax will help decide where people live, and will also add to the already worrying problems of selling property.'* Mae'n ymddangos fod gwirionedd yn y ffaith i nifer o bobl symud cartrefi i osgoi trethi uchel yn rhai o ddinasoedd Lloegr - a hynny dan yr hen drefn o drethu. Mae'n bosibl y gwelir cynnydd yn y patrwm hwn o ganlyniad i bennu'r Dreth Gymunedol.

Gallai'r patrwm hwn amlygu'i hun ar hyd arfordir Gogledd Cymru o ganlyniad i bennu'r Dreth Gymunedol yn yr wythnosau diwethaf hyn. Mae prisiau tai yn parhau'n gymharol rhad yng Ngwynedd, ac y mae'r Dreth Gymunedol hefyd yn rhatach na rhai o ardaloedd Swydd Caer a Glannau Merswy. Yn sicr, byddai prisiau tai a threth is yn abwyd i ddenu nifer o fewnfudwyr i Glwyd a Gwynedd. A gyda'r gwelliannau mewn trafnidiaeth o ganlyniad i ddeoli'r A55 ar hyd yr arfordir, byddai'n bosibl i nifer mwyfwy o bobl gadw eu gwaith yn ardaloedd diwydiannol Caer, Lerpwl neu Fanceinion, a chartrefu yn ardaloedd 'rhatach' arfordir y gogledd. Mae posibilrwydd i'r Dreth Gymunedol fod yn hwb ychwanegol i berswadio mwy o fewnfudwyr i sylweddoli fod byw yng nghefn gwlad Cymru yn atyniadol o ran amgylchedd ond hefyd yn ariannol.

Pa mor fuan tybed y gwelir gwerthwyr tai yn dechrau hysbysebu gyda'r slogan ychwanegol: 'ideal for commuters, and within a low poll tax area.'?

Beth fydd y Dreth Gymunedol yn ardal 'Eco'r Wyddfa'?

Bydd cyfanswm y dreth yn amrywio o fewn gwahanol gymunedau'r fro. Pennwyd treth o £164 gan Gyngor Sir Gwynedd, a £46 gan Gyngor Arfon (y dreth rhataf gan gyngor dosbarth o fewn Gwynedd)

Mae'r Cynghorau Cymuned wedi pennu symiau yn ychwanegol at y rheini at eu dibenion eu hunain. Dyma gyfansymiau'r dreth o fewn y fro:

Betws Garmon - £210; Llanberis - £213; Llanddeiniolen - £211; Llanrug - £212; Waunfawr - £214.

Mae'r Cynllun Lwfans Trawsnewid yn golygu fod tair o gymunedau'r fro yn derbyn gostyngiad yn eu treth: Llanberis (£10 yn llai na'r cyfanswm uchod), a Betws Garmon a Llanddeiniolen (£9 yr un yn llai).

Mae'n dda deall hefyd fod Cyngor Arfon yn eu cyfarfod diwethaf, wedi penderfynu anfon i'r Swyddfa Gymreig i gwyno ynglŷn ag anhegwch y sustem drethu newydd. Dylai pob un o'r Cynghorau Cymuned ddilyn eu hesiampl.

SIMNEIAU GWael? CRACIAU MWG A HOGLA' TARO PERYGLUS

Cysylltwch â David Wood

'INSULAFUE'

Yr Arbenigwyr ar leinio simneiau

FRON HEULOG, DINORWIG

FFôn: Llanberis 871376

DOLUR LLYGAD MWYA'R FRO?



Does dim angen sylwadau am y llanastr hwn rhwng Brynrefail a Phenllyn.

DANGOS EIN LLIWIAU



Annwyl Olygydd,

Mae Eisteddfod yr Urdd 1990 ar ein gwarthaf, a hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i hysbysu PAWB ym mro'r Eisteddfod am y pwysigrwydd o groesawu'r miloedd ddaw atom i Llynllifon.

Roedd hi'n bleser cyrraedd Cwm Gwendraeth y llynedd a chanfod bro'r Eisteddfod yn fôr o goch, gwyn a Gwyrdd - y strydoedd, siopau a thai preifat gyda phosteri a baneri yn croesawu Eisteddfodwyr.

Penderfynodd y Pwyllgor Cyhoeddusrwydd yn Nyffryn nantlle ac Arfon drefnu yr un math o groeso i Eisteddfodwyr eleni. Bydd poster o groeso, ar gael yn rhad ac am ddim, ac fe fyddwn ni fel pwyllgor yn trefnu i archebu MILLTIROEDD o fynting i bawb a'i mynn!

Eisoes cyfrannodd bron iawn pob un Cyngor Cymuned tuag at y gost o harddu'r pentrefi a'r ffyrdd sy'n arwain tuag at Glynllifon, ac apeliaf ar berchnogion tai preifat i gysylltu

BACHU PYSGOTWYR

Annwyl Olygydd,

Bydd Cwmni Cytgord yn cyhoeddi cylchgrawn pysgota Cymraeg o Fis Mai ymlaen. Bydd yn ymddangos bob tri mis gyda'r bwriad yn y pen draw o'i gyhoeddi'n fisol.

Gobeithiwn drafod pob agwedd o bysgota am frithyll, eog a sewin yn afonydd a llynnoedd Cymru.

Os oes unrhyw un o'r darllenwyr eisiau cyfrannu erthygl, stori ddiddorol neu lun ar gyfer yr ail rifyn, dylid ei anfon i'r cyfeiriad isod erbyn 29 Mai 1990.

Bydd y cylchgrawn ar gael yn eich siop leol am £1.00

Yn gywir,

LLYR EDWARDS,

Cytgord,

8 Rhes Fictoria,

Bethesda,

Gwynedd. (Ffôn 0248 600578)

â'u Pwyllgor Lleol (neu gyda mi) os dymunant archebu bynting i'w osod ar eu tai.

Er bod deufis tan yr Eisteddfod, mae yn hanfodol ein bod yn cael gwybodaeth yn fuan faint o fynting sydd ei angen, felly, os gwelwch yn dda, cysylltwch â ni ar unwaith i archebu.

Yn gywir,
ar ran y Pwyllgor
Cyhoeddusrwydd,
EIRUG WYN
(A9 Cibyn, Caernarfon.)286
77845)

CIST GYMUNEDOL CLWYD

Annwyl Olygydd,

Hoffwn ddiolch i ddarllenwyr Eco'r Wyddfa a ddanfonodd ataf. cefais fwy na digon o enwau i berswadio cwmni MASTERCARD ac un o'r banciau rhyngwladol mwyaf i gefnogi'r fenter, ac erbyn hyn, mae'n dda gennyf ddweud fod 'CERDYN CYMRU' yn ffaith. Dylai pawb a anfonodd ataf am fanylion fod wedi eu derbyn erbyn yr wythnos gyntaf ym mis Ebrill.

Mae y cwmni am roi 25c allan o bob £100 a werir ar y Cerdyn i'r Gist Gymunedol. Hefyd, bydd Eisteddfod Genedlaethol Bro Delyn yn elwa, oherwydd bydd pob ceiniog a dderbynnir o'r ffynhonell hon cyn Awst 1af 1990 yn mynd tuag at ariannu gwobr arbennig.

Os nad ydych wedi derbyn eich manylion am 'GERDYN CYMRU', neu os ydych yn awyddus i anfon at bobl yn byw tu allan i Gymru, anfonwch eu henwau a'u cyfeiriadau at: Yasgrifennydd Cist Gymunedol Clwyd, Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Clwyd, Ffordd yr Orsaf, Rhuthun, Clwyd. LL15 1BP.

Yn gywir,
EURWEN EDWARDS,
Cadeirydd.

LLANRUG

Gohebydd: Mrs Dyfi Jones, Tyddyn Rhuddallt (Caernarfon 76733)

PLAID CYMRU: Ymunodd canghennau Llanberis a Llanrug i ddathlu Gŵyl Ddewi yng Ngwesty Fictoria, Llanberis ar nos Iau, Mawrth 1. Mwynhawyd noson hwyliog a difyr gan nifer dda o aelodau a ffrindiau. Cafwyd dawnsio gwerin dan arweiniad Len Jones, Groeslon.

Rhoddwyd y gwobrau Raffl gan Phyllis Ellis a Gwilym Evans, Llanberis, a'r ennillwyr oedd Dafydd Ifans, Penisarwaun a Cliff Williams, Llanrug.

Cynhelir y Ffair Wanwyn nos Fercher, Ebrill 25 am 7.00 o'r gloch yn yr Ysgol Gynradd a'r wraig wadd eleni fydd Mrs R. Thomas, Berwyn. Bydd yno stondinau Bwyd, Cacennau ac Eliffant Gwyn, Raffl a gemau i blant. Derbynnir unrhyw roddion yn ddiolchgar gan Phyllis Ellis, Vena Williams, Meirwen Lloyd, Eryl Roberts, Meryl Green, Helen Parry ac Olwen Hughes. Am unrhyw wybodaeth cysylltwch â Nan Humphreys, Caernarfon 5668.

Fe drefnir yr Helfa Drysor ar Mai 16 gan Lis Roberts ac Owena Parry.

CYMDEITHAS LENYDDOL: Bu cyfarfod o'r Gymdeithas nos Fercher, Chwefror 7. Llywydd y noson oedd Mrs W. O. Roberts, a chafwyd sgwrs am ei blentyndod gan Mr Robert Williams, Llain Gwta, Llanrug. Diolchwyd iddo gan Mr Oswald Davies. Paratowyd paned gan Mr J. W. Owen a Mr Meurwyn Huws Roberts, a diolchwyd iddynt gan Miss Meirwen Roberts.

Nos Fercher, Chwefror 21, gyda Miss Meirwen Roberts yn llywyddu, mwynhaodd yr aelodau noson o gwis dan ofal Mr Hugh Jones, Glanrhyd. Talwyd y diolchiadau gan Mrs Nancy Roberts a pharatowyd paned gan Mr Oswald Davies a Mr Alf Parry, a diolchwyd iddynt gan Mrs E. Ellis Owen.

Aeth nifer o'r aelodau i Westy'r Royal, Caernarfon, nos Iau, Mawrth 1 i ddathlu Gŵyl Ddewi a diwedd tymor y gymdeithas. Ar ôl y gwledda cafwyd adloniant ysgafn gyda Mr Eifion Roberts yn llywyddu a Mrs Mair Jones, Ogwen, yn gofalu am y canu. Cyflwynodd Mrs E. Ellis Owen, y wraig wadd Mrs Helena Jones o'r

Fali, a cafwyd sgwrs fer gan Helena am ei hatgofion o'r amser pan oedd yn aelod yn y Capel Mawr. Diolchwyd i bawb gan Miss Meirwen Roberts.

PWYLLGOR APÊL YR URDD: Dymuna Mrs Esyllt Jones Davies, Cadeirydd pwyllgor trefnu'r Noson Dwynwen ym mis Ionawr, ddiolch yn ddiffuant iawn i'r rhai a gyfrannodd at y bwyd i'r noson, ac i bawb a ddaeth yno i fwynhau eu hunain. Gwnaed elw o £947.50 i'r gronfa yn ganolog.

Ymddiheurwn am anghofio enwi pentrefwyr Tanycoed ynghyd â phentrefwyr Llanrug, Ceunant a Phontrug fel rhai a fu yn hael eu cefnogaeth i'r ymgyrch leol o gasglu o ddrws i ddrws yn ddiweddar. Mae'r gronfa leol yn dal ar agor.

Mae'r pwyllgor wedi trefnu cael argraffu llyfr o straeon trwstan gan rai o enwogion Cymru. Fe ddaw o'r wasg yn ystod y dyddiau nesaf a hyderwn y byddwch i gyd yn ei brynu er sicrhau llwyddiant i'r fenter.

Y GYMDEITHAS UNDEBOL: Dathlwyd Dydd Gŵyl Ddewi yng Ngwesty Tŷ Mawr ar Fawrth 6. Llywydd y cyfarfod oedd y Parch Eryl Blainey. Rhoddodd groeso i'n gwraig wadd, sef Mrs Nant Roberts, Arwel. Cafwyd anerchiad pwrpasol iawn ganddi a thalwyd diolch iddi gan y Parch John Morris ac Emrys Owen.

Yn dilyn fe gyflwynodd Mr Emrys Owen ar ran yr aelodau, docyn llyfr i'r Parch Eryl Blainey, fel arwydd fechan o'i ffyddlondeb a'i gyfraniad i'r Gymdeithas am rai blynyddoedd. Dymunwyd yn dda iddo ef a Mrs Blainey ar ei ymddeoliad o ofalaeth Eglwys Hermon fis Gorffennaf. Cafwyd ymateb gan y Parch Eryl Blainey.

Swyddogion y tymor nesaf fydd: Llywydd - Y Parch John Morris; Trysorydd - Mr J. Ll. Williams, Bod Fair; Ysgrifynyddion - Mrs Mair Humphreys, Rhoslan, a Mrs E. Wh. Thomas, Dolwar.

DIOLCH: Dymuna Mr Henry Williams, Brynarlais, 36 Dinorwic Street, Caernarfon, ddiolch yn garedig iawn am yr holl gardiau, llythyrau a galwadau ffôn a dderbyniodd ar achlysur y brofedigaeth o golli ei annwyl ferch, Eilir Maud.

DIOLCH: Dymuna Mrs S. E.

Thomas, Min-y-Rhos, Ffordd yr Orsaf, Llanrug, ddiolch i'w theulu, ffrindiau a'i chymdogion am y caredigrwydd a ddangoswyd tuag ati yn ystod ei anhwylostod yn ddiweddar.

MERCHED Y WAWR: Bu i'r gangen uchod gyfarfod yn yr Ysgol Gynradd nos Fawrth, Mawrth 13, i ddathlu Gŵyl Dewi.

Croesawodd y llywydd, Mrs Ann Ifans, Mrs C. Roberts a Mrs W. A. Jones yn ôl ar ôl gwaledd. Diolchodd i bawb a fu'n helpu ac a gyfrannodd tuag at y bwyd yn Eisteddfod yr Urdd, a phasiwyd i roi rhodd o'r elw o £50 yr un i bentrefi Penisarwaun a Llanrug tuag at Gronfa Eisteddfod Dyffryn Nantlle.

Llongyfarchwyd plant yr ysgol Gynradd ar eu llwyddiant yn yr Eisteddfod, a hefyd y rhai o Ysgol Brynrefail a fu'n llwyddiannus.

Darparwyd 'bwffe' gogoneddus gan 'Galw', a chafwyd arddangosfa ar ddarparu rhai o'r bwydydd cyn bwyta. Trefnwyd y byrddau a'r baned gan aelodau'r pwyllgor, a gosodwyd y blodau gan Mrs Beryl Thomas. Diolchwyd gan Mrs Margaret Parry. Rafflwyd basged o flodau, a'r enillydd oedd Mrs Beryl Thomas. Canwyd cân i ddiweddu gan aelodau o Gôr Clychau'r Grug a oedd yn bresennol.

Bydd chwaraeon y rhanbarth yn cael eu cynnal ar Fai 9, enwau y rhai sy'n awyddus i ymuno i Meryl Green.

Dalier sylw mai yn Festri Capel Mawr y cynhelir y cyfarfod nesaf ar Ebrill 10 am 7.30 pryd y ceir sgwrs ar 'Lysiau Iachusol' gan Twm Elias.

MARW:

Dydd Gwener, Mawrth 16, bu farw Mr Joseph Williams, 17 Bro Rhyddallt, yn Ysbyty Eryri. Gweddwyd y diweddar Gwen a thad annwyl Buddug, Ceri a Dorothy. Collodd ei unig fab, Gwyn, yn mis Tachwedd y llynedd.

Bu ei angladd dydd Mawrth yr 20fed, gyda gwasanaeth cyhoeddus yng Nghapel Pontrhythallt lle'r oedd yn aelod. Rhoddyd ei weddillion i orffwys ym mynwent Llanrug.

Gwasanaethwyd gan y Parchedigion John Morris, John Lewis Jones, W. O. Roberts, Gwynfor Williams a John Pritchard.

Cydymdeimlir yn ddwys â'r teuluoedd yn eu profedigaeth.

YSGOL GYNRADD LLANRUG: Bu'r

mis olaf yn hynod brysur ar lawer ystyr.

Daeth Miss Nia Roberts o'r Ffôr at Safon 2 a Safon 4. Cafwyd prynhawn difyr a phrysur yn ei chwmni. Bu'n dangos y grefft o ysgrifennu yn y dull Celtaidd. Bu trigain o blant yn ddiwyd iawn drwy'r pnawn yn ceisio efelychu ei dawn arbennig.

Aeth nifer o'r Babanod Canol a'r Babanod Uchaf i ymweld â gwaith teiars A.T.S., Caernarfon. Cawsant amser difyr iawn ymo a diolch i'r rheolwr Mr Tecwyn Roberts a'i staff am y croeso gawsant.

I Ffatri Baent BRADITE ym Methesda aeth Safon 1. Cawsant weld y broses o baratoi a chymysgu lliwiau'r paent. Bu'n brofiad diddorol a lliwgar dros ben.

Ar fawrth 15 treuliodd pedwar o fyfyrwyr o Goleg Addysg Dulyn, ynghyd â phennaeth y Coleg a Miss Catherine Williams, Coleg y Normal, ddiwrnod yn ein plith. Maent yn dilyn eu cyrsiau drwy gyfrwng y Wyddeleg ac felly roedd ganddynt diddordeb mawr yn ein sefyllfa ninnau o fod yn dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Dymuniadau gorau bob un ohonom i Mrs Lyn Jones sydd bellach wedi gorffen fel aelod o staff y gegin. Pob hwyl yn eich swydd newydd, Anti Lyn.

Croeso'n ôl atom Mrs Rhiain Gwyn. Hi fydd yng ngofal y Babanod Canol yn absenoldeb Mrs Evans.

Mae Michelle Roberts, Safon 1, yn gystadleuydd cyson iawn mewn Eisteddfodau ar hyd a lled y wlad. Mae wedi ennill llawer iawn o fedalau, cwpanau a thystysgrifau bellach am ganu, adrodd a cherdd dant. Rydym yn falch iawn o'i llwyddiant cyson. Dal ati, Michelle!

Mae Catrin Eleri, Safon 4, yn nofio o nerth i nerth i dîm i dîm Dinas Bangor. Y tro hwn daeth yn ail mewn dwy gystadleuaeth yn Widnes, wythnos i ddydd Sadwrn. **YR URDD:** Daeth Swyddog Datblygu'r Urdd atom i ddangos ffilm ac i sgwrsio am weithgareddau Gwersylloedd yr Urdd. Diolch yn fawr am noson ddifyr.

Cafodd yr Ysgol ddiwrnod arbennig o lwyddiannus yn Eisteddfod Cylch Arfon ar Fawrth 3.

Dyma'r canlyniadau: Adrodd dan 8 oed: Elin Dafydd (3); Canu dan 8 oed: Siân Green (4); Adrodd 8-10: Michelle Roberts (2); Cerdd Dant 8-10: Elen Morgan Jones (2);

**Wavell
Roberts**

**CIGYDD
LONDON HOUSE
LLANRUG**

Ffôn: Caernarfon 3574

PEN CIGYDD Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref, cigoedd parod
i'w bwyta

Archebion ar gyfer y rhewgist
MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!

**AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL A
RHAD YM MHRYDAIN A THRAMOR ...**



**BYSIAU ARFON
LLANRUG**

(Eric Morris)

Ffôn: Caernarfon 5175 77858

**Y STORFA
LLANRUG**

(Richard a Meirwen
Williams)

Ffôn: Caernarfon 2790

Sylwch ar ein horiau
agor hwylus:

Sul 9 - 12.30
Llun - Gwener 7.30 am - 6 pm
Sadwrn 8 am - 8 pm

**Nid oes unrhyw dâl am
ddanfôn ordor i'ch cartref
yn ardal Llanrug.**

CYSTADLEUWYR LLWYDDIANNUS YSGOL GYNRADD LLANRUG YN EISTEDDFOD YR URDD – CYLCH ARFON



Ennillwyr Tarian yr Urdd.



Michelle Roberts, ail am adrodd 8-10 oed.



Y Parti Dawns Werin buddugol dan 12 oed — yn rhoi cymeradwyaeth iddynt eu hunain tybed?



Beverley Roberts a Rhian Green, buddugol ar y ddeuawd dan 12 oed.



Luned Mair Jones, ail ar yr unawd pres dan 12 oed.



Y Parti Adrodd Buddugol yn Eisteddfod Cylch yr Urdd



Genethod y Parti Unsain buddugol yn mwynhau'r ymarfer o amgylch y piano.



Y Parti Deulais buddugol.

Unawd 10-12: Rhian Green (1); Deuawd dan 12: Beverley Roberts a Rhian Green (1); Unawd Pres dan 12: Luned Mair Jones (2); Unawd Piano dan 12: Rhian Green (1); Jacqueline Gibbins (2); Parti Dawns Werin dan 10: 2il; Parti Dawns Werin dan 12: 1af a 3ydd; Parti Unsain: 1af; Parti Cerdd Dant: 2il; Parti Adrodd: 1af a chydadd 2il; Côr Deulais: 2il.

Hyfryd oedd gweld pedair o

enethod hynod weithgar o Safon 4 yn codi'r darian fawr hardd ar ddiwedd diwrnod hir, hapus, llawn brwdfrydedd, ond blinedig. Pob hwyl i'r rhai fydd yn cystadlu yn yr Eisteddfod Sir.

Diolch o galon blantos am eich ymroddiad ac i'r athrawon hynny fu'n eich dysgu. Diolch hefyd am gefnogaeth a gwerthfawrogiad arferol y rhieni a theuluoedd y plant yn gyffredinol — sy'n gwneud y cyfan yn werth chwell.

PENCAMPWRAIG DAWNSIO DISGO



Sophie Evans, Cefn Elan, Llanrug, fydd yn cynrychioli Arfon ym mhencampwriaethau dawnsio disgo Cymru a gynhelir yn Aberystwyth y mis hwn. Mae'n aelod o Glwb leuencid Llanrug, ac yn y rownd derfynol yn y Dôm, Caernarfon, yn ddiweddar, daeth i'r brig yn yr adran dan 14 oed yn erbyn dawnsiwr o ardaloedd Caernarfon, Llandudno a Phenygroes. Mae hefyd wedi bod yn llwyddiannus mewn eisteddfodau'r Urdd, gan ddod yn ail dan 15 oed yn Sir Eryri.

Y FRECH DDU YN Y FRO

Yn dilyn erthygl y mis diwethaf ar 'ganiatad cynllunio yn Arfon Wledig', gwahoddwyd pob un o gynghorwyr Arfon sy'n cynrychioli ardal o fewn dalgylch yr 'Eco', i roi eu sylwadau ar faterion cynllunio o fewn y fro sy'n ymwneud ag adeiladu tai newydd yng nghefn gwlad. Nid oes unrhyw un ohonynt wedi ymateb i'r gwahoddiad.

Mae cynrychiolaeth gref o'r fro ar y Pwyllgor Cynllunio - sef y Cynghorwyr Brian Jones (Cwm-y-Glo), Charles W. Jones (Llanrug), Francis Jones (Llanberis), Samuel Jones (Bethel) a Pat Larsen (Penisarwaun). Dau yn unig sydd heb fod yn aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio - y Cynghorwyr Jacob James (Deiniolen) a Gwilym Williams (Waunfawr). Felly, mae pump allan o saith o gynghorwyr y fro â rhan uniongyrchol ym mhenderfyniadau'r Pwyllgor Cynllunio.

Y dogfennau y cyfeirir atynt fel canllawiau i benderfynu ar geisiadau cynllunio yw'r Cynlluniau Lleol o fewn Arfon - yn achos bro'r 'Eco', Cynllun Lleol Arfon Wledig. Ond fel yr adroddwyd y mis diwethaf, nid yw aelodau'r Pwyllgor Cynllunio yn dilyn y cyfarfwyddiadau hyn ym mhob achos. Yn wir, dros y pymtheng mlynedd diwethaf, rhoddwyd caniatad i godi un neu ragor o dai ar fwy na chant o safleoedd o fewn Arfon, a hynny'n groes i bolisiau'r Cyngor. Mae'r rhain yn cael eu

dangos ar Fap 1. Mae'n amlwg fod y rhain wedi eu gwasgaru ar hyd a lled Arfon, ond mae'r 'frech ddu' wedi taro bro'r 'Eco' yn waeth nac unrhyw ardal arall. Y mae'n arbennig o wir yn y rhanbarth i'r gogledd o Afon Seiont (gweler Map 2).

Mewn adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Cynllunio, dywed Prif Swyddog Cynllunio Arfon fod modd codi 1337 o unedau ar hyd a lled Bwrdeistref Arfon ar 'dir sy'n destun caniatad cynllunio neu'n



Safleoedd tai yn Arfon a ganiatawyd yn groes i bolisi

dir a neilltuwyd ar gyfer tai yn y cynlluniau lleol.' Byddai'r tai hyn yn ddigonol i gartrefu o leiaf 3000 o bobl. Pam felly y mae cymaint o geisiadau yn cael eu caniatáu ar dir na chafodd ei neilltuo ar gyfer tai? A pham y mae hynny'n arbennig o wir am fro'r 'Eco'?

(i'w barhau y mis nesaf)


BRYNREFAIL

Gohebydd: Miss Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed, 870580
DYWEDDIAD: Llongyfarchiadau i Kathy, merch ieuengaf Mr a Mrs Wilbert H. Williams, Marino, ar ei dyweddiad â Thomas Glyn Jones o Walchmai.

DIOLCH: Dymuna Miss Blodwen E. Owen, 2 Tai Orwig, ddiolch yn ddiffuant i gyfeillion a chymdogion am eu caredigrwydd tuag ati yn dilyn damwain anffodus yn ei chartref. Diolch i staff Ysbyty Gwynedd a chartref St Teilo, Bethel, a diolch arbennig i Mrs Jennie A. Roberts, Glandwr.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd cyfarfod mis Mawrth, nos Lun, Mawrth 12fed, a chafwyd noson fuddiol yng nghwmni Mr John Roberts o Gyngor Bwrdeistref Arfon yn egluro y dreth gymunedol newydd. Trefnwyd y lluniaeth gan Mrs Mai Parry a Mrs Gwyneth Williams. Diolchwyd i'r siaradwr gwadd gan Mrs Rhian Jones ac i'r gwestwagedd gan Mrs Jean Davies. Enillydd gwobr y mis oedd Mrs Eirlys Williams.

Nos Lun, Mawrth 19, cafwyd gornest rhwng yr aelodau mewn gêm o 'Scrabble'. Enillwyd y noson oedd Mrs Pat Jones a Mrs Eirlys Williams a byddant yn mynd ymlaen i gynrychioli'r gangen mewn cystadleuaeth bellach a drefnir gan Grŵp Gwyrfa.



Safleoedd tai yn groes i bolisi o fewn bro Eco'r Wyddfa

GARI WILLIAMS . . .



Un o Fochdre ydi mab hyna' Mrs Williams.

Mi ddylai hynna fod yn ddigon o gyflwyniad, a chondemniad, i unrhyw un, ond rhag digio gweddill trigolion tre'r Moch mae'n well imi ymhelaethu. Ond na wna'i ddim sôn am yr hogyn bach del, penfelyn, efo llais boi soprano fatha Tonto wedi eistedd ar gactus. Na, ni soniaf chwaith am y trafeiliwr Findus gafodd 'frostbite' yn ei fan gwan. A na,

pam dylwn i sôn gair am y nionyn fyddai'n mynnu torri ar draws ei well yn 'Chwedlau Jogars'.

Y cwbl ddeuda i ydi fy mod i'n croesi'r maes yn ystod 'Steddod Llanrwst ar fy ffordd i ryw drafodaeth sych pan glywn i don ar ôl ton o chwerthin aflywodraethus yn dod o gyfeiriad y babell Ddrama. Rwan, rhyw le digon di-wên ydi fan'no fel arfer ond y diwrnod hwnnw roedd Gari Williams yno yn diddanu.

A rwan mae o am alw heibio i chi. Peidiwch a'i golli - wel, os nad yda chi'n cael poenau gormodol yn eich asenna' pan 'da chi'n chwerthin.

John Ogwen

THEATR GWYNEDD, BANGOR

Nos Iau — Nos Sadwrn, 19-21 Ebrill, 7.30 p.m.

Tocynnau: £4.00, £3.50, £3.00. (0248) 351708

Bistro
43-45 STRYD
FAWR
LLANBERIS
Ffôn: 871278



hefyd yn ystod y dydd
Bistro Bach
Y MAES
CAERNARFON
Ffôn: 673075



CABS LLANRUG



C'fon 5951

Prisiau cystadleuol
Gwaith contract
pell ac agos

DINORWIG

Gohebydd Mr D. J. Thomas, 8 Maes Eilian

EGLWYS ST MAIR: Dros dymor y Grogolith a'r Pasg dyma fydd trefn y gwasanaethau yn Eglwys St. Mair. Ar Fore'r Grogolith cynhelir gwasanaeth Litani a Phregeth am 9.30 ac yna yn y prynhawn trefnir gorymdaith y Groes trwy'r pentref. Bydd yr orymdaith yn cychwyn o'r Eglwys am 2.15 ac yna ar ôl mynd o gwmpas y pentref dychwelyd i'r un fan am 3.00 pryd y cynhelir gwasanaeth syml i gofio am yr aberth mawr a wnaed gan Grist dros bob un ohonom. Yna, ar fore Sul y Pasg, cynhelir gwasanaeth Cymun Teuluol am 10.00. Mae croeso i bawb ymuno yn y gwasanaethau hyn.

SGETSUS: Ar ôl bod wrthi yn ystod yr wythnosau diwethaf yn ymarfer sgetsus bob nos Lun yn y Ganolfan, bydd Noson o Hwyl a Chân yn cael ei chynnal nos Wener, Ebrill 6 am 7.00 yn y Ganolfan. Ni chodir tâl mynediad, yn hytrach gofynnir i bawb roi pa gyfraniad bynnag yr hoffent ei wneud. Bydd paned a bisgedi ar gael i bawb. Dylai fod yn noson llawn hwyl. Byddai'n dda gweld cynifer dda ohonoch yn dod i'r noson i fwynhau eich hunain.

TEULU FRON DEG: Os bu i chwi wyllo y ffilm 'Blodeuwedd' ar S4C ar ddydd Gŵyl Dewi, yna mae'n debyg i chwi weld cyfeiriad at enwau tad a merch o'r pentref hwn. Y ddau oedd Alfred Dearn a Lesley y ferch, o Fron Deg. Mae Lesley yn dilyn cwrs 'Cyfle' gyda'r cyfryngau, tra bu i'w thad lunio ffon i'w defnyddio ar y ffilm. Ar hyn o bryd deallwn bod Lesley yn gweithio ar ail gyfres 'Mwy na phapur newydd'. I deulu sydd wedi dysgu ein hiaith ar ôl dod yma dros Glawdd Offa maent i'w hedmygu am daflu eu hunain i'r bywyd Cymraeg.

ANHWYLDER Y GOHEBYDD: Fe gadwodd anhwylder fi rhag dilyn tymor y Gymdeithas Ddiwylliadol hyd derbyn y tymor, ond fe ddaeth cyfeillion eraill i'r adwy i lenwi'r bylchau. Rwyf innau'n ddiolchgar iddynt am eu cyfraniad.

Er i ni gael sbel o dywydd eithriadol o dyner, eto i gyd fe boenwyd amryw yn yr ardal gan byliau cas o afiechydon - y rheini'n ymwneud â gwendid yn y frest. Roedd amryw dan y fliw a ddatblygodd yn 'bronchitis' i rai. Y

blynyddoedd diwethaf hyn, fe gafwyd amryw fathau o fflw a rhyw nodwedd wahanol ymhob un ohonynt. Does ryfedd fod nifer ohonom yn medru tystio na allem gofio y math arbennig a gafwyd eleni, erioed o'r blaen. Yn sicr ddigon, yn yr amgylchedd yr oedd yr aflwydd yn llechu.

APÊL: Fe ofynnwyd i mi gynnwys a ganlyn yn ein rhifyn cyfredol, ac ni wneuthum ymdrech i gywiro mân frychau na newid fawr ddim ar yr arddull, gan adael i'r geiriau siarad drostynt eu hunain:

'Mi hoffem ni ddechrau clwb i blant o 6 i 12 oed yn yr ardal, ac mae 'na lot o blant yma rwan, a mae gynnwys ni le bendigedig i gyfarfod sef yr hen ysgol Dinorwig, a adnabyddir bellach fel Y Ganolfan. Mi fydd y plant, hogiau a genod yn gwneud gweithgareddau fel crefftiau, gemau, dramau, canu gwerin, dawnsio, coginio a chynnal trafodaeth. Mae gen i lot o ddiddordeb mewn gweithgareddau awyr agored - fel cerdded, gwersylla, lletya, reidio ar gefn beic, a rydan ni'n byw mewn ardal fendigedig i fwynhau'r awyr agored, Dinorwig a Fachwen. Mi hoffwn i gyfarfod efo'r oedolion a'r rheini sydd efo ddiddordeb i drafod ein syniad ar nos Lun, Ebrill 2 am 7.30 a wedyn gobeithio dechrau tua diwedd Ebrill. Dewch i' hen ysgol am 7.30 nos Lun, Ebrill 2 efo eich syniadau. Sarah Anderson, Ffôn 872367 (Saesnes yn dysgu Cymraeg) a Karen Jones, Ffôn 870805

Y GYMDEITHAS LENYDDOL UNDEBOL: Daeth tymor y Gymdeithas Lenyddol i ben nos Iau, Mawrth 8, gyda 'Cawl a Chan'. Paratowyd y lluniaeth gan rai o ferched y Gymdeithas, a daeth 'Grwp Cerdd y Dysgwyr' yno i'n difyrru gyda'u hamrywiol offerynnau. Treuliwyd noson ddifyr, a barf oedd cael cwmni llywyddion y noson agoriadol, Mr a Mrs Hugh Williams, Gaerwen, yno gyda ni i gloi'r tymor.

Er gwaethaf y stormydd geirwon llwyddwyd i gadw at y rhaglen a ddarparwyd. Dechreuwyd y flwyddyn newydd trwy gynnal Cwrdd Gweddi a oedd yng ngofal chwiorydd Dinorwig (M.C.). Ar Ionawr 25 daeth Mr a

Mrs Leslie Jones, Penisarwaun, atom i adrodd hanes eu taith ddifyr i Ogledd America, o Efrog Newydd a Washington a thros y ffin i Ganada. Mr Gwyn Llewelyn o'r rhaglen deledu 'Hel Straeon' oedd y gŵr gwadd ar Chwefror 8, a 'Hel Straeon' oedd testun ei sgwrs. Aeth a ni y tu ôl i'r camera fel petai, a datgelu rhai o ddirgelion llunio rhaglen ac adrodd amryw o straeon oedd yn deillio o hynny. Adrodd straeon a wnaeth Mr John Hugh Jones, Llanberis, hefyd ar Chwefror 22. 'Chwedloniaeth' oedd ei destun, a chawsom ganddo aml i chwedl oedd yn rhoi ystyr enwau lleoedd cyfagos.

Trist yw cofnodi'r golled sydd ar ôl aelodau ffyddlon a'n gadawodd yn ystod y flwyddyn, ac fe welwn eisiau rhai eraill sydd wedi methu a bod yn bresennol oherwydd afiechyd. Anfonwn ein cofion atynt, gan ddymuno gweld aelodau newydd wedi ymuno â'r Gymdeithas. Ein dymuniad yw gweld mwy eto'n dod i lenwi'r bylchau a adawyd.

Gobeithir cynnal cyfarfod i drefnu rhaglen at y tymor nesaf yn ystod yr haf. Diolch i bawb am eu cefnogaeth i'r Gymeithas, ac am

weithio mor galed i sicrhau ei llwyddaint yn nhymor 1989-90. Elen Wyn Jones (Ysgrifennydd y Tymor).

CYFARFOD GWEDDI BYD-EANG Y CHWIORYDD: Fe'i cynhaliwyd yn y Ganolfan ar ddydd gwener, Mawrth 2. Yr arweinydd oedd Miss Marian Jones gyda Mrs Beti Lloyd Roberts yn annerch, a cyfeiliwyd gan Mrs Jennie Williams. Fe gymerwyd rhan gan Mrs Katie Griffith, Miss Margaret Jane Jones, Mrs Rene Morris, Mrs Alice Griffiths, Mrs Karen Jones, Miss Ellen Wyn Jones, Mrs Katie Lloyd Hughes a Mrs Beti Roberts. **RHOI FFORCH YN Y PRIDD:** Bellach, rhyw edrych ymlaen mewn gobaith yr ydym i weld tymor hau'r hadau blodau, yr hadau mân eraill, ac o bosibl y tatws a'r moron ac yn y blaen. Er ein bod yn Ninorwig ar dir pur uchel a'r môr heb fod ymhell, fe geir peth llwyddiant yn y grefft o drin y gerddi, a phan mae gwrtaith yn brin, fe geisir claddu yn y pridd sbwriel o'r gegin er ceisio perswadio'r pridd i ymateb a rhoddi cynnyrch i wneud yr ymdrech yn werth chweil. Fe ddaw'r ffrwyth yn ei bryd.

ENNILL Y DYSGWYR MAE ANGEN EICH HELP CHI !

Mae'n bobl yn eich ardal chi sydd eisiau dysgu Cymraeg. Bob blwyddyn bydd mwy a mwy yn dewis ymuno â dosbarthiadau dysgu Cymraeg o bob math. Bob blwyddyn mae'n mynd yn fwy a mwy anodd cael digon o bobl i ddysgu'r dosbarthiadau hynny. **Ydych chi erioed wedi meddwl am ddysgu Cymraeg i ddosbarth o oedolion?**

Efallai eich bod yn meddwl mai dim ond athrawon ysgol sydd â'r hawl i wneud hynny. Dim o gwbl. Mae pob math o bobl yn dysgu Cymraeg i oedolion - ffermwyr, pobl y cyfryngau, gweithwyr banciau, ysgrifenyddesau, mamau, tadau, pobl wedi ymddeol. Os ydych chi'n credu bod dysgu Cymraeg i oedolion yn waith gwerth ei wneud, ac yn mwynhau cwmni oedolion eraill, a wnewch chi ystyried bod yn diwtor?

Os oes gennych ddiddordeb - a rhyw ddwyawr neu dair, neu fwy, yn rhydd bob wythnos - cysylltwch â'r Swyddog Dysgu Cymraeg i Oedolion, Cydbwyllgor Addysg Cymru, 245 Rhodfa'r Gorllewin, Caerdydd (0222 555446), neu â'ch trefnydd Cymraeg i Oedolion yn lleol. Bydd cyfle i chi dderbyn hyfforddiant yn eich ardal.

Efallai nad ydy bod yn diwtor yn apelio atoch. Gallwch helpu mewn ffyrdd eraill hefyd. Mae canghennau CYD yn trefnu gweithgareddau o bob math i ddod â Chymry Cymraeg a dysgwyr at ei gilydd. Drwy ymuno â CYD gallwch helpu'r dysgwyr i ddod yn rhan o'r gymdeithas Gymraeg a sicrhau bod y Gymraeg yn dechrau

adennill tir yn eich ardal chi. Os ydych yn awyddus i wneud hynny, dylech gysylltu â Siôn Meredith, Trefnydd cenedlaethol CYD, Yr Hen Goleg, Aberystwyth (0970 623111), neu â'ch cangen leol.

Mae'n bosib sôn gormod am golli tir ac am ddirywiad y Gymraeg. **Ar Ebrill 4 bydd diwrnod cenedlaethol i annog Cymry Cymraeg i helpu i gynyddu nifer y dysgwyr llwyddiannus.** Bydd cynhadledd ac arddangosfa y bore hwnnw yng Nghaerdydd a bydd rhaglenni Radio Cymru'n rhoi sylw i'r achos drwy gydol y dydd. Byddwn yn apelio am bobl i ffonio Radio Cymru y diwrnod hwnnw i roi eu henwau a dweud eu bod yn fodlon helpu naill ai fel tiwtoriaid neu trwy ganghennau CYD. Beth amdani?

Gwaith Adeiladu? Gwaith Grant ac Insiwrans?
Dewch at

R. A. OWEN

**9 TAI GLANDWR, CLWT Y BONT
DEINIOLEN**

Ffôn 870693 (dydd) 870069 (min nos)

*Trwsio Toi, Teilsio Waliau a Lloriau, Concritio Llwybrau,
Plastro, Gosod Llechi, Paentio ac Addurno, Waliau,
Byrddau Plastar, Trwsio Simneiau, Gwaith Plymio.*

Arwel Roberts

3 Erw Wen,

CAEATHRO

673014



**GLANHAWR
SIMNE**

**Os yw'r llwch yn y simne
Yn drwch uwch y tân
Down atoch â phleser
l'w sgubo yn lân**

LÔN LAS PERIS

Mae Cyngor Bwrdeistref Arfon yn dechrau ar fenter newydd yr wythnos yma i greu Lôn Las ar gyfer cerddwyr a beicwyr o Gaernarfon drwy Lanberis i'r Parc Cenedlaethol yn Nant Peris. Bydd y Lôn Las yn apelio at yr anabl a theuluoedd ifanc yn arbennig gan y bydd wedi ei ddylunio fel y gall problemau a phobl mewn cadair olwyn fynd ato yn hawdd.

Mae Sustrans Cyf - sef yr arbenigwyr ar lwybrau beicio - yn awr wedi cynhyrchu Astudiaeth Ymarferoldeb ar gyfer rhan o'r ffordd. Arianwyd yr Astudiaeth ar y cyd gan y Cyngor Bwrdeistref a Chyngor Cymuned Llanberis. Mae'n dangos fod yna fodd i greu llwybr o safon uchel rhwng Llanrug a Nant Peris gan arwain trwy bentrefi Brynrefail a phentref Llanberis. Gellid sefydlu darnau helaeth ohono ar wely'r hen reilffyrdd gynt.

Gall hyn fod yn fodd i greu ardal hamdden llinellol o fri cenedlaethol neu ryngwladol ar gyfer trigolion lleol ac ymwelwyr.

Mae'r ffaith fod Cyngor Bwrdeistref Arfon wedi dechrau ar y gwaith o adeiladu rhan o'r lôn las yn arwydd o bwysigrwydd y cynllun i'r Cyngor. Dyma'r rhan ar lan Llyn Padarn rhwng Brynrefail a Llanberis ar dir sydd ym mherchnogaeth y Cyngor Sir. Dylai'r gwaith fod wedi gorffen

mis nesaf. Hefyd, mae wedi ymrwymo cryn lawer o adnoddau ar gyfer darparu rhannau eraill o Lôn Las Peris a llwybrau eraill yn yr Aredal yn y flwyddyn ariannol nesaf - 1990/91.

Wrth arwain y ffordd yn y fenter yma, mae'r Cyngor yn galw am ymrwymiad o'r un safon, tebyg i'r ymrwymiad sydd wedi cael ei ddangos eisoes gan Gynor Cymuned Llanberis wrth gynorthwyo i ariannu'r Astudiaeth Ymarferoldeb, gan gyrff cyhoeddus eraill. Dymuna'n arbennig weld yr Awdurdod Datblygu Cymru a'r Comisiwn Cefn Gwlad fel y prif gyfranogwyr.

Bydd y Lôn Las yn lwybr ar gyfer y gymuned. Er mwyn gallu gweithredu eu cynlluniau bydd y Cyngor Bwrdeistref angen cymorth grwpiau lleol a phobl leol. Eto, gweler cefnogaeth Cyngor Cymuned Llanberis yn y gwaith o gael gwneud yr Astudiaeth Ymarferoldeb fel enghraifft bwysig o beth ellir ei



Gwely'r hen reilffordd a fydd yn sylfaen i ran o Lôn Las Peris.

wneud.

Prif gasgliadau'r Astudiaeth Ymarferoldeb yw:

- Mai tua £255,000 fyddai'r gost o greu llwybr 7.5 milltir.

- Gellir ei rannu yn 19 rhan i'w gweithredu fel daw'r tir a'r arian ar gael.

- Gellid troi'r ardal yn barc llinellol go iawn trwy ddarparu meysydd hamdden newydd yn Llanrug a Brynrefail ac

ychwanegu at y cyfleusterau sydd ar gael eisoes yn Llanberis a Nant Peris.

- Gwelir cyfle hefyd i greu llwybrau cysylltiol o'r Lôn Las i bentrefi eraill megis Cwm y Glo, Deiniolen, Dinorwig, Penisarwaun, Rhyd-ddu a'r Waunfawr.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Jim Woodcock, Caernarfon 67113, Est 561.

RAFFL APÊL LOWRI

Enillwyd y raffl a drefnwyd i gyd-redeg â Gêm beldroed at Apêl Lowri gan Gareth Hughes o Borthmadog. Mae Gareth yn gefnogwr Everton brwd - a da hynny, gan mai crys ei hoff glwb wedi ei lofnodi gan y chwaraewyr oedd y wobr. Casglwyd £150 at yr Apêl o'r raffl - a chwarae teg iddo, roedd yr enillydd wedi llwyddo i werthu gwerth £31 ohonynt.

YN EISIAU

Llun o hen bont yr Aber, Caernarfon.

Cysyllter â Gwilym Eric Green, 'Bethania', Watson Park, OMAGH, County Tyrone, neu â'r Golygyddion.

EBENESER (o Benisa'rwaun ar hwyrnos o Haf)

Llenni'r hwyr
yn lapio am Ebeneser,
parseli o dai
yn swatio'n swil
ym mhadell y mynydd.

Disgwylfa'n gwrido
ar awr machlud,
llygaid perlog
yn llynnoedd o ddagrau euog.

Llwynog o haul
yn llithro'n gynffon slei dros y llethrau,
gan ddiplannu i'r gwyll,
a chlogyn y nos
yn ysgafn ddisgyn
dros war Gwaun Gynfi.

A lampau'r hwyr
ar silff Gallt-y-Foel
fel goleuadau ffair
yn wincian eu cyfarchion
a'r nos yn lapio'i siôl
am Ebeneser.

SELWYN GRIFFITH



YSTORFA MINFFORDD STORES
GAEATHRO
GAERNARFON
YR HEN BOST 1887-1987 AR TYRPEG 1817-1886

Nwyddau Groser
Prynwyr a Gwerthwyr Hen Bethau

WELDIO OFFER FFERM
A PHEIRIANNAU
DIWYDIANNOL
GWNEUD GIATIAU,
FFENSYS AC ATI
AR GYFER Y CARTREF
ATGYWEIRIO TAI
GWAIR


E. PUGH
WELDING &
FABRICATING
32 GLANFFYNNON
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 5394

E.W.Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: 870202 a 870272
TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

Am bob math o
WYDR wedi'i
DORRI, DDANFON
NEU EI OSOD.
cysylltwch â

**Barrys
GLASS**



Camelot,
PENISARWAUN
Ffôn: Llanberis 871144

DEINIOLLEN

GOHEBYDD: W. O. Williams, 6 Rhydfadog (Llanberis 871259)

DYDD GWEDDI: Cynhaliwyd cyfarfod Dydd Gweddi Byd-Eang y Chwirydd yn Festri Ebeneser Nos Wener, Mawrth 2. Arweinydd y gwasanaeth oedd Mrs Eirlys Williams, Tabernacl, a chyfeiliwyd gan Miss Jean Parc Jones, Ebeneser.

Traddodwyd anerchiad gan Mrs Rosina Worth, Llandinorwig, ar y thema 'Gwell Yfory - Cyfiawnder i Bawb'. Cymerwyd rhan ychwanegol gan chwirydd o eglwys i'r cylch, sef Mrs Gwen Rowlands, Miss Margaret Jones, Mrs Gwen Griffith, Mrs Jane Jones, Mrs Beryl Hughes, Mrs Dilys Williams, Mrs Ruth Jones, Mrs Beti Wyn Davies, Mrs Eirlys Lloyd Jones, Mrs Mary Catherine Jones, Miss Iris Rees Jones. Casglwyd yr offrm gan Mrs Beryl Hughes. Diolchodd yr arweinydd i bawb a gymerodd ran ac i'r cyfeiliydd.

CLWB ELIDIR: Cafwyd cyfarfod o'r Clwb ar Chwefror 27 pryd y treuliwyd prynhawn yn dathlu Gŵyl Dewi. Rhoddwyd y te gan Mrs Jane Jones, Mrs Laura Williams a Mrs Mary Morris. Rhoddwyd y raffl gan Mrs Laura Williams ac fe'i henillwyd gan Mrs Alwen Jones.

Cafwyd cyfarfod arall ar fawrth 13 dan lywyddiaeth Mrs Jane Jones. cafwyd prynhawn difyr ac addysgol iawn yng nghwmni Mr a Mrs Leslie Jones, Penisarwaun. Testun y sgwrs oedd 'Teithio' ac fe aeth Mr Jones a ni ar hyd a lled y byd. Diolchwyd iddo gan Mrs Megan P. Morris. Gwesteion y te oedd Mrs Ellen Williams, Mrs Jane C. Hughes a Mrs Katie Griffith. hoddwyd y raffl gan Mrs Ellen Williams ac fe'i henillwyd gan Mrs Pat Evans.

Dymunwyd penblwydd hapus i Mrs Ellen Williams, Bwthyn. SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd cyfarfod o'r sefydliad yn y Ganolfan ar Fawrth 5, o dan arweiniad Mrs J. Eirlys Williams, y llywydd. Darllenodd Mrs Williams y llythyr misol a chafwyd swper Gŵyl Dewi a chafwyd 'Moes a Phryn' (Bring & Buy) dan ofal Miss Jean Moeller. Rhoddwyd y te gan y pwyllgor. Enillwyd y raffl gan Mrs J. Eirlys Williams. Bydd y cyfarfod nesaf ar Ebrill 2.

LLONGYFARCHIADAU: Mae'n bleser gennym longyfarch Dyfrig Wyn Lewis o Fae Colwyn (gynt o Lys Myfyr, Deiniolen) ar ennill Ysgoloriaeth Evan Morgan i Goleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth.

Bu'n ddisgybl yn Ysgol Gwaun Gynfi ac yn Ysgol Brynrefail wedyn am 5 mlynedd. Ar hyn o bryd, mae'n ddisgybl yn Ysgol y Creuddyn.

Mae Dyfrig yn bwriadu mynd i Aberystwyth yn yr hydref i astudio'r Gyfraith, a dymunwn yn dda iawn iddo.

YSGOL GWAUN GYNFI: Isod gwelir canlyniadau Eisteddfod yr Urdd Cylch Arfon a gynhaliwyd yn Ysgol Gyfun Brynrefail ar Fawrth 3, 1990.

Unawd dan 8: 2, Elfed Morris. Unawd Cerdd Dant 8-10: 3, Alaw Mari Hughes. Adrodd 8-10: 1, Alaw Mari Hughes. Unawd 10-12: 2, Lyndsey Vaughan Parry. Unawd Cerdd Dant 10-12: 1, Lyndsey Vaughan Parry. Adrodd 10-12: 1, Lyndsey Vaughan Parry. Offeryn Pres dan 12: 1, Sian Elen Thomas. Grŵp Offerynnol dan 12: 2, Grŵp Richard. Parti Unsain dan 12 oed: 2, Parti Sian Elen. Parti Cerdd Dant dan 12: 1, Parti Alaw Mari. Côr Grŵp 3 dan 12 oed: 1, Côr Jennie Lyn.

Ymhyfryda'r ysgol yn eu llwyddiant.

Llongyferchir hefyd Daniel Jones ar ennill medal uchaf y Cybiaid, sef y fedal aur am gyflawni y nifer fwyaf o weithgareddau ymarferol.

Cymerodd bethan Griffith ran yn y rhaglen deledu boblogaidd 'Hafoc' yn ddiweddar 'ma. Bu iddi ennill y wobr gyntaf a chafodd fag hardd am ei medrusrwydd.

DIOLCH: Cynhaliwyd noson goffi lwyddiannus yn yr ysgol nos Wener, Mawrth 16. Bydd yr elw yn mynd i brynu peiriant Asthma i'r clinig lleol.

Enillwyr y raffl oedd: 1, Ella; 2, Cledwyn; 3, Pat Maths; 4, Mrs Mary Morris; 5, Gwyn Morris; 6, Cled Electronics.

Hoffasi'r pwyllgor ddiolch o waelod calon i bawb a gyfrannodd mewn gwahanol ffyrdd.

Erbyn y rhifyn nesa mo'r Eco, gobeithia'r pwyllgor roi datganiad manwl o'r hyn a brynwyd.

CYDYMDEIMLO: Cydymdeimlwn

yn fawr â Mrs p. Jones, 21 Rhydfadog, o golli brawd oedd yn byw yn Nhrefnyddon, Clwyd.

TRETH Y PEN: Bydd cyfarfod agored yn y Ganolfan Deiniolen, Ebrill 3 am 7.30, siaradwr Mr

John Dryhurst Roberts, Trysorydd Cyngor Arfon. CROESO CYNNES I BAWB. Trefnir gan gangen leol Plaid Cymru.

CYNLLUN 'JAMBORÍ B.T.'

Mae 'Cefn' yn lansio ymgyrch i gael mil o Gymry i Gyfarfod Blynnyddol Telecom Prydain i fynnu cael polisi cydraddoldeb llawn i'r Gymraeg ym mhob agwedd o waith BT yng Nghymru.

Gan fod BT erbyn hyn yn gwmni, mae Cefn yn trefnu gwerthu un cyfraniad i bawb sy'n cefnogi'r ymgyrch. Bydd hyn yn rhoi hawl i unigolyn fynd i'r Cyfarfod Cyffredinol ac i bleidleisio. Gofynnir i bawb ddanfôn £4, i dalu cost y cyfranddaliad a'r costau, gan gofio rhoi enw a chyfeiriad llawn ac fe fydd cefn yn gwneud y gweddill o'r trefniadau.

Mae Cefn ynghyd â nifer o fudiadau ac awdurdodau ac unigolion, wedi cael achos i gwyno am agweddau di-gymraeg neu wrth gymraeg Telecom Prydeinig ers blynnyddoedd.

Yn yr un cyfnod ble mae monopoliau eraill, megis trydan, dŵr, a nwy wedi gwrandao a gwneud newidiadau sylfaenol i roi gwasanaeth i Gymry, mae BT wedi troi tu min. Mae gwrth-Gymreictod pendant yn perthyn i rai o'u penderfyniadau diweddar a'r gwasanaeth yn mynd yn waeth, nid gwell, i siaradwyr Cymraeg.

Er yr addewid a gafodd Eleri Carrog yn y cyfarfod Blynnyddol yn 1989 y byddai BT yn dilyn polisi goleuedig ac yn datblygu ym maes dwyieithrwydd, nid ydynt wedi symud cam ymlaen. Yn wir, ar ôl derbyn canllawiau'r Bwrdd Iaith, gwelir BT yn defnyddio'r canllawiau hynny fel esgus i beidio rhoi gwell gwasanaeth i Gymru.

MIL O GYMRY I WRTHWYNEBU BWRDD BT YN Y CYFARFOD BLYNYDDOL. - DYNA'r bwriad. Byddwn yn fwyaf yno. Dangoswn fod Cymry o ddifri ac i'w cymryd o ddifri.

Dangoswn, mewn un prynhawn, gryfder y teimlad yng Nghymru yn erbyn BT. Bydd yn foes wers i awdurdodau a chwmnïau eraill sydd yn gwrthod paratoi gwasanaeth iawn.

Byddwch yn rhan o'r diwrnod cyffrous, ahnesyddol a di-drais yma.

Gwahoddwn chwi i brynu UN CYFRANDDALIAD yn BT trwy gynllun Cefn, a dod efo ni i wrando a chefnogi siaradwyr blaenllaw o Gymru yn gwrthwynebu polisi BT o ddiystyru galwad ein cenedl. Byddwn yn dweud wrth BT, o flaen y byd, sut y dylent ymddwyn fel cwmni gwâr at genedl wâr.

Mae croeso wrth gwrs i'r rhai sy'n barod yn berchen ar gyfranddaliadau i ymuno â ni yn ein gwrthwynebiad.

DYDDIAD A LLE

Nid yw BT wedi datgelu dyddiad y Cyfarfod Blynnyddol eto. Llynedd yr oedd ar Orffennaf 27 yn yr NEC ym Birmingham: mae'n debyg mai tua'r un dyddiad y bydd eleni eto ac yn yr un lle. Bydd pob cyfranddalwr yn derbyn gwahoddiad yno gan BT ac fe fydd lluniaeth ysgafn ar gael i bawb a bysus handi am ddim gan BT o'r maes parcio i neuadd gyfforddus.

Dewch fel unigolion, fel grwpiau, fel criw o gapel, neu gymdeithas, fel mudiadau. Ond yn bennaf oll - fel Cymry sy'n falch o'u gwlad a'u hiaith ac am newid y driniaeth sarhaus atom fel pobl gan BT a phob cwmni/awdurdod tebyg.

BRYN

(B & K Williams)

Hen Ysgol
Glanmoelyn

LLANRUG

Ffôn 77482 (dydd)
870793 (nos)

Gwneuthurwyr Ffenestri,
Drysau, Grisau neu
unrhyw fath o gynnyrch
coed. Y coed meddal wedi
derbyn triniaeth arbennig i
wneud iddynt bara.



J.M.
JONES
A'I FEIBION

GWAITH
CERRIG
BEDDAU

Y SGWÂR, LLANRUG

Crefftwy'r gwaith
llaw traddodiadol,
Cerrig o bob
math ar gael.

Ffôn:
Caernarfon 2898
(dydd)
Caernarfon 76285
(nos)

GERAINT OWEN

Gosodwr
carpedi a phob
math o lorïau

Cil-y-Mynydd
WAUNFAWR

Ffôn:
Waunfawr 552

WAUNFAWR

Gohebydd: Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr.

CRONFA'R GANOLFAN: Dyma restr o enillwyr y Clwb 300 am mis Chwefror: 1, £40 - Mr O. T. Jones, gwenallt; 2, £25 - Mr F. R. Troughton, Pant Gwyn; 3, £10 - Mrs M. Jones, Graianfryn.

RECORDIO: Yn ystod mis Ebrill bwriada Cwmni Recordiau Sain recordio sgwrs hunangofiannol gan Ifor Bowen Griffith yn y Ganolfan, Waunfawr, ac estynnir gwahoddiad i'r ardalwyr ddod i'r recordiad fel cynulleidfa. Ceir mwy o fanylion am y noson, sydd yn rhad ac am ddim, yn y man.

MERCHED Y WAWR: Nos Iau, Chwefror 22, dathlodd y gangen Wyl Dewi o dan lywyddiaeth Irene Roberts. Cafwyd danteithion o bob math wedi cael eu paratoi gan yr aelodau i gyd.

Cydymdeimlwyd â Gillian Wyn a'r teulu, yn eu profedigaeth o golli tad a mam o fewn bythefnos i'w gilydd. Dr Miles oedd ein gŵr gwadd eleni ac roedd pawb yn teimlo tipyn o dristwch. Er coffa amdano darllenodd y llywydd deyrnged Gwynn Davies iddo. Bydd colled ar ôl Mrs Miles hefyd.

Dymunwyd wellhad buan i Mrs Griffith, caeau gwynion, sydd yn yr ysbyty ac K. Wyn Jones sydd mewn cartref dros dro; anfonwyd blodau i'r ddwy. Croesawyd Mrs Griffith, Llys Helen, i'n plith ar ôl iddi fod yn yr ysbyty. Enillwyd y raffl gan Jill Brown, rhoddedig gan Alma Jones.

Bydd William Owen, Borth y Gêst yn ymuno â ni mis Mawrth. Y **GYMDEITHAS LENYDDOL:** Daeth tymor llwyddiannus i ben nos Lun, Mawrth 5, gyda Seiat Holi i drafod gwahanol agweddau Cefn Gwlad. Aelodau'r panel oedd John Roberts Williams, Dewi Williams, a Duncan Brown, gyda Dei Tomos yn gwestiwn-feistr.

Yn dilyn caed bwffe ardderchog wedi ei drefnu gan y merched a thalwyd y diolchiadau gan R. Gwynn Davies.

Bwriedir cael trip fin nos ym Mehefin a chyhoeddir y manylion ym mis Mai.

Roedd 86 o aelodau wedi ymuno yn y Gymdeithas y tymor hwn a chytunodd y trefnydd Rol Williams i gario ymlaen â'r gwaith am dymor arall.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Nos Iau, Mawrth 1, yn festri Croes y Waun,

dathlwyd swper Gŵyl Dewi ardderchog wedi ei baratoi gan y Pwyllgor.

Croesawodd ein llywydd Mrs Catherine Jones, ddwy aelod newydd sef Mrs Ann Griffith a Mrs Bridget Ryan; hefyd darllenodd y llythyr misol, a darllenodd yr ysgrifennydd, Mrs Peggy Jones y cofnodion.

Ein gŵr gwadd oedd Mr R. Gwynn Davies, a cafwyd sgwrs diddorol iawn ganddo ar ei yrfa fel cyfreithiwr yng Nghaernarfon a Llangefni, yr ochr ddifrifol a'r ffraeth, yn ei waith. Diolchwyd iddo ar ran y Sefydliad gan ein llywydd.

Rhoddyd y raffl gan Mrs Pat Parry a'r enillydd oedd Mrs Duncan.

Bydd y cyfarfod nesaf ar Ebrill 5. **DIOLCH:** Dymuna Liz a Jeff Daniels, Stad Tŷ Hen, ddiolch o galon i bawb am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd ar enedigaeth eu mab Hefin, brawd bach i Iwan. Diolch hefyd i feddygon y pentre am eu gofal a phob caredigrwydd.

DIOLCH: Dymuna Mrs M. A. Owen, 26 Tref Eilian, ddiolch yn gynnes iawn am y cardiau a'r dymuniadau da a dderbyniwyd yn dilyn triniaeth i'w chlun yn yr ysbyty. Hoffai ddiolch i'w ffrindiau, cymdogion, meddygon a nursus y pentref am eu gofal caredig.

LLONGYFARCHIADAU i Mr a Mrs Meirion Jones, Crud yr Awel, ar ddod yn daid a nain. Ganwyd merch fach, Catrin Alaw, i'w merch Linda a'i gŵr Alan, chwaer fach i Elliw.

Llongyfarchwn hefyd Meilir Gwynedd, nant, ar ddod yn drydydd yn y gystadleuaeth offeryn chwyth dan 15 oed yn Eisteddfod Sir yr Urdd, ac i Elin Gwilym, LLidiart Wen, ar ddod yn gyntaf yn y gystadleuaeth adrodd dan 15 oed. Bydd Elin yn awr yn cynrychioli'r Sir yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym mis Mai.

Hwyl fawr iddi ac i'r rhai o'r pentref sydd o Gôr Ysgol Syr Hugh fydd yn cystadlu yn yr Eisteddfod.

ADREF O'R YSBYTY: Yn ystod y mis gorfu i Mr Arfon Hughes, Manchester House, Mrs Gwen Jones, Bod Arthur, ac Angharad, merch fach Keith ac Iris, Stad Tŷ

hen, dreulio cyfnod yn yr ysbyty. Da deall eu bod wedi gwella ac wedi cael dod adref erbyn hyn. **YN YR YSBYTY** mae Mrs Emsul Jones, Bro Waun a Mrs Parry, Clydfan. Gobeithio y byddwch yn teimlo'n well yn fuan.

Anfonwn ein cofion at bawb yn y pentref sydd ddim wedi bod yn teimlo'n dda yn ddiweddar. Gobeithio y byddwch yn gwella yn ystod y gwanwyn.

DAMWAIN: Fe frifodd Gwyndaf Williams, Tros y Gors, ei ysgwydd mewn damwain yn ddiweddar. Gobeithio dy fod yn gwella, Gwyndaf.

YR URDD: Nos Fercher, Chwefror 28 cafwyd Noson Agored er mwyn rhoi cyfle i blant yr Urdd oedd yn cystadlu yn yr Eisteddfod Cylch i berfformio o flaen cynulleidfa.

Cymorth Cyntaf Sant Ioan yng nghwmni Mr Griff Roberts, Llanrug, gafwyd ar Fawrth 7, gyda Gofal ar y Ffordd gan Mr Dafydd Edwards ar Fawrth 21.

Llongyfarchiadau i'r Parti Records a'r Ensemble ac i Kristy Jones, Cynefin, ar lwyddo i fynd drwodd i'r Eisteddfod Sir. Pob hwyl iddynt yno ar Fawrth 24.

Llongyfarchiadau i'r tîm pel-droed pump bob ochr am chwarae eu gorau yng nghystadleuaeth yr Urdd yn ddiweddar.

Mae'r tîm pel rwyd yn aros am eu gêm nesaf yn awr ar ôl bod yn llwyddiannus yn eu gêm gyntaf, a'r tîm pel-droed yn aros am gêm yn erbyn tîm Aberdaron neu tîm Chwillog.

YR YSGOL: Mae rhyw si drwy'r pentref fod merched y gegin wedi gwirioni'n lân hefo'r ysgol yr wythnosau diwethaf yma! Mae nhw yno bob penwythnos, ac ar ôl oedfa fore Sul hyd yn oed! Wel i beth tybed? Mae cryn un ar bymtheg o wyau hwyaid mewn deorfa yn yr ysgol, ac mae'n rhaid troi'r wyau nos a bore, ar Sul, gŵyl a gwaith. Felly rhan o dîm mawr o athrawon, plant a staff ategol yw'r merched.

Daeth Mr Cynrig Hughes y bridiwr adar o Dalysarn, i'r ysgol i ddangos i ni sut i fynd o gwmpas pethau. Yn wir, mae tipyn o frwdfrydedd yn yr ysgol, gan fod pawb yn ei dro yn troi'r wyau, yn mesur tymheredd y ddeorfa nos a bore, ac yn cofnodi'r datblygiadau. Rydym yn edrych ymlaen yn arw at ddeor y cywion cyntaf at ddiwedd y mis.

Bu Mr Hughes yn arddangos Ifan y ceiliog a'i deulu yn yr ysgol, a

gofynnodd i'r plant roi enwau ar y ddwy wraig sydd gan Ifan, a'r ceiliog a'r ddwy iâr ddu hefyd. Mae'r plant wedi dewis rhestr o enwau fydd yn addas i geiliogod a ieir, a byddant yn pleidleisio yr wythnos nesaf i ddewis enwau'r criw!

Yng nghanol stormydd a gwyntoedd cryf, fe gawsom egwyl a bore hyfryd i blant y babanod a Safon 4 ymweld â'r Ffarm bysgod ym Mhontllyfni. Roedd pysgod anferth yno, a buasai ambell i riant o Bysgotwr wedi bod yn falch o weld unrhyw un ohonynt arv flaen ei enwair.

Mae'n dda fod gan ambell un o'r athrawon sbectol go gryf!

Pan ddaeth wyau'r Gloynnod byw drwy'r post o'r Pili Palas, prin roedd pawb yn gallu eu gweld â'r llygaid noeth. Roedd cryn ddeg ar hugain ohonynt yn swatio'n batrwm twt ar ynys o ddeilen, mewn bocs brechdanau anferth! Ond wir i chi, maent bellach wedi deor ac mae'r lindys bach barus yn brysur fwyta drwy'r ddeilen fresych. Pan ddaw'r Gloyn Gwyn tllws o'r chwiler yn yr haf, fe fydd raid cadw draw o erddi garddwyr Waunfawr!

Mae rhai o'r plant am fynd i ymweld â'r Pili Palas ym Mhorthaethwy cyn diwedd y mis. **PEL DROED:** Bu tîm pêl-droed 5 bob ochr yr ysgol yn cystadlu yng nghystadleuaeth 5 bob ochr Allied Steel yng Nghanolfan Hamdden Caernarfon yn ddiweddar. Ar ôl chwarae yn erbyn Maesincla, Rhostryfan, Bontnewydd, Groeslon a'r Gelli yn y bore, aethant ymlaen i'r rowndiau terfynol yn y prynhawn.

Ar ôl chwarae eub tair gêm yn y prynhawn yn erbyn Bontnewydd, Maesincla a Rhosgadfan, roedd yr ysgol yn ail i Bontnewydd yn y gystadleuaeth ac felly yn mynd ymlaen i'r rownd nesaf i Arfon/Dwyfor ym Mangor.

Y bechgyn a gynrychiolodd yr ysgol oedd: Marcus Huws, Dylan Jones, Iwan Jones, Huw Gwilym, David Bound, Kevin Davies a Gerallt Jones.

LLONGYFARCHIADAU i Dafydd Glyn, mab Tom a Iona Williams, Llwydiarth, ar ei ddychafiad yn y banc fel Is-Reolwr Personel Rhanbarthol. Bydd yn ymgartrefu yn Newcastle-under-Lyne.

LLONGYFARCHIADAU i Gillian a Dennis, Bro Waun, ar enedigaeth merch fach, chwaer i Darren ac

Parhad ar dudalen 11

Dysgwch yrru'r car gydag

Y.Y.O.
YSGOL YRRU
OFALUS

- * Gwasanaeth 7 diwrnod
- * O ddrws i ddrws
- * Control Deuol

D L
PRITCHARD
43 Glanffynnon
LLANRUG
CAERNARFON 5112
Cymeradwyir gan yr Adran
Drafnidiaeth



CARTREF YR HENOED
CARTREF NEWYDD COFRESTRDIG
AG IDDO AWYRGYLCH GYMREIG
CYSYLLTWCH Â MRS MEIRWEN
THOMAS NEU MRS ELI WILLIAMS
Ffordd yr Orsaf, Llanrug, Caernarfon
(0286) 4652

W. H. JONES

TRYDANWR

Green Bank

Stryd Fawr

LLANBERIS

Ffôn: Llanberis

871470

Cotractau Weirio Tai

Cawodydd Trydan
ac ati

GWARCHOD Y GYMRAEG

Mewn cyfarfod o Gyngor Cymuned Llanrug ar Fawrth 20, mabwysiadwyd y polisi iaith canlynol.

Polisi Iaith Cyngor Cymuned Llanrug

1. Cymraeg yw iaith y Cyngor.
2. Cedwir cofnodion y Cyngor yn y Gymraeg.
3. Y Gymraeg a ddefnyddir ar gyfer unrhyw weinyddiaeth.
4. (i) Bydd y Cyngor yn gohebu a Chyrff Statudol sydd yng Nghymru drwy gyfrwng y Gymraeg. Ni roddir sylw i ohebiaeth ganddynt oni fyddo yn Gymraeg neu yn ddwyieithog: Cymraeg a Saesneg.
- (ii) Bydd y Cyngor yn gohebu a sefydliadau eraill ac a chwmnïau sydd a phencadlys yng Nghymru drwy gyfrwng y Gymraeg. Os derbynir gohebiaeth ganddynt yn y Saesneg, bydd y Cyngor yn nodi ei dymuniad i ohebu â hwy yn y dyfodol drwy gyfrwng y Gymraeg.
- (iii) Bydd y Cyngor yn gohebu ag etholwyr unigol drwy gyfrwng y

Gymraeg gn ateb llythyrau Saesneg yn Saesneg.

- (iv) Pan fydd y Cyngor yn defnyddio dwy neu ragor o ieithoedd, bydd y Gymraeg yn cael blaenoriaeth bendant. Y fersiwn Gymraeg a gymerir fel yr un cywir pe bai unrhyw amheuaeth ynglŷn â'r cyfieithiad.
5. Ni arwyddir unrhyw gytundeb masnachol ar ran y Cyngor onibai ei fod yn Gymraeg.
6. Mae'r Gymraeg yn gymhwyster hanfodol i unrhyw weithiwr/wraig cyflogedig gan y Cyngor sy'n dod i gysylltiad uniongyrchol â'r cyhoedd.
7. Bydd y Cyngor yn ddieithriad yn rhoi ystyriaeth i effaith ieithyddol a diwylliannol unrhyw gais cynllunio. Bydd y Cyngor yn ystyried niwed i'r iaith Gymraeg neu'r diwylliant Cymreig yn ddigon o reswm ynddo'i hun i argymhell unrhyw gais cynllunio.
8. Bydd y Cyngor yn argymhell i unrhyw gorff sy'n ceisio nawdd ganddo i fabwysiadu polisi iaith sy'n rhoi blaenoriaeth bendant i'r Gymraeg.
9. Bydd angen adolygu'r polisi yn achlysurol a bydd angen mwyafrif o ddwy ran o dair (2/3) o'r Cynghorwyr i newid y polisi.

Mae'r 'Eco' yn llongyfarch Cyngor Llanrug ar eu polisi, ac yn annog cynghorau cymuned eraill y fro i fabwysiadu polisi tebyg os nad oes ganddynt un eisoes yn bodoli.

Parhad o dudalen 10

wyres fach i Mr a Mrs Hanks, Stad Tref Eilian.

YN YR YSBYTY: Mae Mrs Annie Evans, Glaslyn, Mr George Taylor, Baladeulyn, a Mr Robert Jones, Y Bwthyn, stad newydd Croes-y-Waun, wedi cael eu cymryd i'r ysbty. Anfonwn ein cofion cynhesaf atynt.

GWILYM H. WILLIAMS BRYN DAIRY 2 BRYNHYFRYD BETHEL

Ffôn
Port Dinorwig 670786



Llefrith
Llaeth Porfa
Llaeth heb Hufen
Wyau, Tatws
Diodydd
Ffrwythau

Am wasanaeth fframio
cyflawn - LLUNIAU
TYSTYSGRIFAU,
TAPESTRI:-
ELWYN PRITCHARD
Fframiwr Lluniau/
Telynau Gwynedd
Parc Padarn
LLANBERIS
870922 neu Bangor 351427
cesglir a danfonir i'ch
cartref os dymunwch

IEUAN WILLIAMS Glanffrwd DEINIOLLEN

Llanberis 870484

- ★ Bysiau o 12 i 53 sedd
- ★ Teithiau Lleol a Thramor
- ★ Gwaith Contract
- ★ Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol

**FIDEO
FIDEO
FIDEO**
Gwasanaeth Fideo
Proffesiynol
JOHN BLIGHT
LLANBERIS
872209

Priodasau a phob
achlysur arbennig arall
Hefyd Ffilmiau Hyfforddi
a Gwasanaeth newid
CINE I FIDEO

CRONFA APÊL LOWRI



Mrs M. Jacobs o Westy Seiont Manor, Llanrug, yn cyflwyno sic i Mrs Beryl Roberts, Trysorydd cronfa Apêl Lowri. casglwyd yr arian tuag at y Gronfa gan gwsmeriaid Seiont Manor mewn raffl arbennig a gynhaliwyd yn ystod y mis diwethaf.

RHODDION

£5: Mrs Nellie Roberts, Glanrafon, Nant Peris; Rhodd er côf am Mrs Nellie Roberts, Noddfa, Llanberis; Mrs G. T. Roberts, Erw Gain, Llanrug; Mr Henry Williams, 'Brynarlais' Stryd Dinorwig, Caernarfon; Miss Rachel W. Thomas, Min y

Rhos, Llanrug.

£3: Mrs E. J. Williams, 2 Bryn Tirion, Penisarwaun; Mrs S. E. Thomas, Min y Rhos, Llanrug; Catrin Lloyd Roberts, Merddyn Coch, Ffordd Capel Coch, Llanberis.

£2: Mrs M. A. Owen, 26 Tref Eilian, Waunfawr; Mrs H. T. Owen, Caerdydd.

CARPEDI GLÂN!

Mynnwch driniaeth

STIMVAK

gyda'r offer mwyaf
modern, diweddaraf, sydd
ar gael. Am fanylion
cysylltwch â

TEGID PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR 291
Hefyd ail-osod carpedi

Aled Jones

Peiriannydd
Gwres Canolog
a Plymio

4 Bryn Eglwys
PENISARWAUN
Ffôn Llanberis
871047

CRIB COCH

Y Sgwâr, Llanrug
Ffôn: Caernarfon
76772

TRIN GWALLT I
BAWB O'R TEULU
GAN JEN

Ffoniwch neu galwch
i drefnu amser

OSMOND SHAW DEINIOLLEN

GWERTHU
- TRWSIO
★ Teledu
★ Fideo

★ Offer Trydan
Gwasanaeth
Ffôn 24 awr
LLANBERIS 870545

ECO'R IFANC

EWCH O DDOT I DDOT

CORNEL JÔCS

Beth ydych chi'n galw banana ddrwg?
Rhywbeth liciwch chi - dydyn nhw ddim yn groen denau!!

Beth sy'n ysgwyd ac yn hedfan?
Jeli-copter.

Doctor: Mae angen sbectol arnoch chi.
Wil: Ewadd, doctor, sut ydych chi'n gwybod?
Doctor: Y ffordd wnaethoch chi gerdded i mewn drwy'r ffenest!!!

Sut ydych chi'n suo car o Ffrainc i gysgu?
Renault - Reno, hen blant bach, Reno, Reno, Reno, hen blant bach!

Rwan 'ta, Meri fach. Gwers ar yr wyddor. beth sy'n dod ar ôl y llythyren 'a'?
Y lleill i gyd, miss

Be' ti'n galw gwesty i wartheg sy'n crwydro?
Mw-tel!

Cnoc! Cnoc!
Pwy sy' 'na?
Val!
Val pwy?
Val gerrig neu Val frics!!

Cnoc! Cnoc!
Pwy sy' 'na?
Dei.
Dei pwy?
Deinosor!!

Glywsoch chi am y parsel oedd yn rhedeg yn yr Olympics?
Mi gafodd ei 'lapio' dair gwaith.



Beth sy'n mynd WM! WM!
WM!
Dwn i ddim, beth sy'n mynd WM! WM! WM!?
Buwch yn mynd am yn ôl!!

Sut wyt ti'n dal wiwer?
Dringo coeden a smalio bod yn gneuen!

Sut wyt ti'n dal cwningen?
Gorwedd ar lawr a gwneud swn fel letys!!

LLONGYFARCHIADAU

Canmoliaeth arbennig i'r canlynol am waith da iawn yn y gystadleuaeth y mis diwetha'.
Rachel Ward, 1 Glyn Terrace, Deiniolen (3½); Dylan Morris Evans, Tŷ Crwn, Lon Graig, Llanberis (4); Jamie Morris 2, Maes Padarn, Llanberis (4½); Keith Williams, Bryn, Cwm-y-Glo; Manon Morris Evans, Tŷ Crwn, Llanberis (5); Emma Davies, Hafan, Gallt y Bont, Waunfawr (5); Gwawr Hughes, 3 Preswylfa, Llanberis (6); Bethan Mair Jones, 15 Tan-y-Buarth, Bethel (6); Martin Jones, 26 Glanffynnon, Llanrug (7); Kevin Davies, Hafan, 1 Gallt y Bont, Waunfawr (10).



Enillwyr cystadleuaeth mis
Mawrth yw:
Dion Sion Owen, Hafod y Rhos,
Llanrug (5 oed).
Emma Morris, 2 Maes Padarn,
Llanberis (7 oed)
Dyfan Aled Williams, Bron
Wenda, Llanrug (9 oed)
LLONGYFARCHIADAU
MAWR I CHI'CH TRI. MAE
GWOBR I'R TRI
OHONOC!!

Rhowch chwithau gynnig ar
gystadleuaeth Mis Ebrill.
Cofiwch mae'n rhaid i'r
ceisiadau ddod i law cyn Ebrill
17.
Oes ganddoch chi storïau neu
jôcs da i'w rhannu gyda ni?
Cofiwch eu hanfon i'r
'Gornel', Pant Bryn Gwyn, Tan-
y-Coed, Llanrug.

CYSTADLEUAETH MIS EBRILL

ENW
CYFEIRIAD
.....
.....
OED



BETHEL

Gohebydd: Geraint Elis, Cilgeran (Felinheli 670 726)

MERCHED Y WAWR: Y wraig wadd yng nghyfarfod mis Chwefror oedd Karen Thomas. Rhoddodd gynghorion ar sut i goluro'r wyneb yn effeithiol a rhoddodd fraslun o'r gwasanaeth ar gael yn ei salon 'Body Talk' yng Nghaernarfon.

Paratowyd te a bisgedi i bawb gan Meinir Roberts a Mair Price. Enillwyd y rafflau gan Mary Griffiths a beti Owen. Diolchwyd i'r wraig wadd gan beti Owen.

Ar Fawrth 14 bu'r gangen yng Nghegin y Marcwis, Llanfairpwll i gael Swper Gŵyl Ddewi.

PLAID CYMRU: Mae'r gangen yn trefnu noson yng nghlwb Criced Llandegai yng nghwmni Dafydd Iwan a'r Band ar Ebrill 6. Trefnir bws o Fethel i fod yno erbyn 8.00 (Cysyllter â Nan Owen, Ffôn 670763). Mae tocynnau ar gael gan Nia Griffiths (Ffôn 670641). **DIOLCH:** Dymuna Mr Alwyn Jones, Bro Dawel, Rhoslan, ddiolch i bawb fu'n ymweld ag ef yn Ysbyty gwynedd yn ddiweddar ac am y llu o alwadau a dderbyniodd. Diolch yn fawr i bawb.

URDD - ADUAN BENTREF: Llongyfarchiadau i bump o ferched y gangen leol ar gael eu dewis fel rhan o dîm y Ddawns Flodau yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni. Yn anffodus gorfod i ddwy dynnu'n ôl, ond edrychwn ymlaen yn fawr i gael gweld y dair arall, sef Bethan Williams, Emma Burnand a Gwenan Michael yn dawnsio ar lwyfan y Genedlaethol, yn ystod Seremoni y Dysgwyr ar y dydd Mawrth, a seremoni y Coroni ar y dydd Gwener.

LLONGYFARCHIADAU mawr i nifer o ieuenctid y pentref ar ddathlu eu penblwydd yn 18 oed. Ers dechrau'r flwyddyn bu Arwel Jones, 16 tan y cae, Angharad Price, 5 Tan y Ffordd, Aled Jones, Y Fachell ac Eirlys Jones, Tyddyn Oer y dathlu eu penblwydd. Dymuniadau gorau i'r pedwar.

EISTEDDFOD YR URDD: Llongyfarchiadau i aelodau Adran yr Urdd a fu'n cystadlu yn Eisteddfod Gylch yr Urdd yn Ysgol Syr Hugh Owen ar ddydd Sadwrn, Chwefror 24. Daeth un grŵp o fethel yn fuddugol yn y gystadleuaeth dawnsio disgo a grŵp arall yn ail. Daeth Lisa Owen yn ail yn y gystadleuaeth dawnsio disgo unigol. Llongyfarchiadau i'r aelodau ac i Mrs Miriam Thomas sydd wedi bod yn brysur dros yr wythnosau yn eu hyfforddi.

Llongyfarchiadau hefyd i Non

PRIODAS



Priodas Gweno Mair Owen a Michael Lyndon Bond yng Nghapel Bethel yn ddiweddar.

LLun: Len Jones, Cwmyglo.

Llewelyn Jones ar ddod yn fuddugol yn chwythu'r clarinet yn y gystadleuaeth chwythbrennau unigol.

CAPEL Y CYSEGR: Bydd gwasanaethau'r mis yn y Cysegr fel a ganlyn: Ebrill 1 — Mr Oswyn Rees; Ebrill 8 — Parchedig Ronald W. Roberts. Gwasanaethau undebol gyda Bethel, Ebrill 15 — Y Parchedig Stanley H. Williams; Ebrill 22 — Y Gweinidog; Ebrill 29 — Mr J. Lloyd Williams.

Nos Iau, Ebrill 12 am 7 o'r gloch, cynhelir gwasanaeth cymun yn y capel. Mae croeso cynnes i unrhyw un i droi i mewn.

NOSON GOFFI: Nos Fawrth, Ebrill 24, yn Festri Cysegr cynhelir noson goffi gyda'r elw yn mynd i Gronfa Goffa Charles Williams.

O'R YSBYTY: Croeso adre i Michael Green, 1 Corra Linn, ar ôl

CROESO ADREF



Michael Green o'r ail ddosbarth yn Ysgol Bethel yn ael croeso adref gan rai o'i ffrindiau yn dilyn cyfnod o lawdriniaeth mewn ysbyty yn Lerpwl.

PETHAU BYW



Ffermwyr Ifanc Dosbarth Babanod Bethel gyda'r oen llywaeth a fabwysiadwyd ganddynt. Mae'r oen yn eiddo i fferm Cae Coch, a'r plant yn dysgu amdano fel rhan o brosiect 'Pethau Byw'.

DAWNSWYR DISGO



Grŵp dawnsio disgo Bethel — buddugol dan 12 oed yn Eisteddfod Cylch yr Urdd.

cyfnod yn yr ysbyty yn Lerpwl. Mae Michael wedi cael triniaeth fawr i'w galon, ond rydym yn falch iawn o glywed ei fod yn gwella.

Dymuniadau gorau hefyd i Harland Jones, Tan y Buarth, a gipiwyd i'r ysbyty yn frawychus o sydyn yn ddiweddar. Rydym yn falch iawn o glywed ei fod ar ei ffordd adref.

I'R EISTEDDFOD GENEDLAETHOL: Llongyfarchiadau i'r Côr

Adran dan 12 a'r Grŵp Disgo dan 15 sydd wedi llwyddo i fynd drwodd i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd fydd yn cael ei chynnal ym Mharc Glynllifon ddiwedd Mai.

LLETY I BLANT Y 'STEDDFOD: Mae angen rhywfaint mwy o bobl eto i gynnig llety i blant o rannau eraill o Gymru fydd yn cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd. Os oes gennych le i roi croeso i'r eisteddfodwyr tybed a fydddech yn rhoi eich enw i Mrs Rita Williams. **LLONGYFARCHIADAU:** Enillodd Bethan Fôn Jones ddwy fedal arian yn Eisteddfod Talsarnau, un ar alaw werin a'r llall ar unawd piano dan 10 oed. Hefyd cafodd ail ar yr unawd a thrydydd ar ganu cerdd dant. Daeth Bethan yn drydydd yn Eisteddfod yr Urdd (Cylch) ar yr unawd dan 10 oed.

Llongyfarchiadau mawr iddi ar ei llwyddiant.

DIOLCH: Dymuna teulu'r diweddar Mr Iorwerth Parry, Garreg Lwyd, Rhosbodrual, gynt o Tyddyn Hen, ddatgan ei diolch cywiraf i'w perthnasau, cymdogion a ffrindiau am bob arwydd o gydymdeimlad a

- Jig i Atgyweirio Cyrff
- Tiwnio Crypton
- MOT
- Ail-Sbreo
- Tracio
- Balansio Olwynion
- Gwasanaethu
- Cymysgu Paent
- Gwerthu Ceir Newydd ac Ail-law
- Partiau Renault
- Petrol ESSO a DERV
- Sigarennau a Melysion
- Calor Gas

PRIF GYNRYCHIOLWYR



YNG

NGWYNEDD

Perchennog: E.P. Hughes

MODURDY DOLYDD

GROESLON Ffôn: Llanwnda 830562

charedigrwydd a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth sydyn o golli gŵr, tad a thaid annwyl iawn. Diolch i'r Parch W. R. Williams a

Canon R. Jones, a diolch hefyd am y rhoddion tuag at gronfa Haematoleg Ysbyty Gwynedd. Daeth i law £310.

TLWS Y DDrama BRO DELYN 1991

Mewn cynhadledd a gynhaliwyd yn Theatr Gwynedd, Bangor, ddechrau Mawrth, cyhoeddwyd cystadleuaeth Tlws y Ddrama Eisteddfod Genedlaethol Bro Delyn 1991.

Dyma'r tro cyntaf i'r Eisteddfod Genedlaethol gyhoeddi un o brif gystadlaethau'r Wyl cyn Wythnos y Cyhoeddi ym mis Gorffennaf.

Cyhoeddwyd y gystadleuaeth gan ddau o'r beirniaid, William R. Lewis a J. O. Roberts, ac eglurwyd pam y penderfynwyd diwygio'r gystadleuaeth. Y trydydd beirniad fydd Michael Povey.

Deillia'r penderfyniad i ddiwygio cystadleuaeth Tlws y Ddrama o arbrawf arbennig a gynhaliwyd yn Eisteddfod Dyffryn Conwy y llynedd, pan wahoddwyd cwmni drama proffesiynol i berfformio sgript orau'r gystadleuaeth.

Ni chafwyd teilyngdod yn Llanrwst — ond er hynny, credir i'r gystadleuaeth lwyddo o ran egwyddor. Penderfynodd Is-bwyllgor drama Eisteddfod Genedlaethol Bro Delyn y dylid parhau â'r drefn newydd, ond gyda rhai newidiadau sylfaenol.

Gwnaethpwyd cais arbennig i Gyngor yr Eisteddfod am yr hawl i gyhoeddi'r gystadleuaeth ynghynt nag arferol, er mwyn rhoi mwy o amser i awduron i baratoi sgript.

Bydd Cystadleuaeth Tlws y Ddrama Eisteddfod Genedlaethol Bro Delyn yn gofyn am sgript drama hir a ddylid ei chwblhau erbyn diwedd Tachwedd 1990.

Rhwng Tachwedd a dechrau Ionawr 1991, bydd y tri beirniad

yn darllen y sgriptiau, gan gyflwyno un sgript sy'n haeddu sylw pellach i Gyfarwyddwr Cwmni Theatr Gwynedd, a fydd yn perfformio'r ddrama wythnos yr Eisteddfod.

Yna, bydd y Cyfarwyddwr yn trafod y sgript gyda'r awdur cyn penderfynu os oes teilyngdod ai peidio.

Cyhoeddir enw'r awdur buddugol ddiwedd Chwefror 1991, a bydd yr awdur, y Cyfarwyddwr a'r cwmni yn cydweithio ar y sgript o hynny ymlaen.

Os nad oes teilyngdod bydd Cwmni Theatr Gwynedd yn perfformio drama arall yn ystod wythnos yr Eisteddfod.

Mae swyddogion Eisteddfod Genedlaethol Bro Delyn yn hyderus y bydd y newidiadau o fudd i'r gystadleuaeth, gan y bydd yr amodau newydd yn caniatáu mwy o amser i'r awdur baratoi'r sgript wreiddiol yn ogystal a rhoi cyfle iddo weithio arni mewn cydweithrediad a Chyfarwyddwr y Cwmni Theatr a'r actorion.

Gobeithir y bydd y gystadleuaeth yn denu rhagor o gystadlwyr, ac y bydd safon y gystadleuaeth yn uwch o'r herwydd.

Mynegwyd pryder yn ystod y blynyddoedd diwethaf nad oedd y gystadleuaeth yn ei ffurf bresennol yn ildio cynhyrchion o'r safon a ddisgwylir, ac mai natur y gystadleuaeth oedd yn bennaf gyfrifol am hyn.

Dywedodd cynrychiolydd ar ran Panel Artistig Cwmni Theatr Gwynedd, 'Mae'r Eisteddfod a Chwmni Theatr Gwynedd wedi cytuno i newid rhai amodau o'r gystadleuaeth oherwydd ein bod

CYRSIAU YSGRIFENNU

Bydd Tŷ Newydd, y ganolfan breswyl i ysgrifennwyr ar gyfer Cymru, a leolir yn Llanystumdwy, Gwynedd, yn dechrau ar raglen o gyrsgiau ysgrifennu yn Ebrill y flwyddyn hon. Bydd hanner y cyrsiau yn Gymraeg a'u hanner yn Saesneg. Cwrs ysgrifennu ar gyfer y llwyfan gyda Cefin Roberts a Valmai Jones yn diwtoriaid a W. S. Jones (Wil Sam) yn ŵr gwadd yw'r cwrs cyntaf yn Gymraeg. Gillian Clarke a Robert Minninnick, y ddau yn feirdd Eingl-Gymreig adnabyddus, sydd yn cychwyn y rhaglen Saesneg. Mae'r rhaglenni yn y ddwy iaith, yn darparu amrywiaeth eang o gyrsgiau a anelir at bob safon, profiad ac arbenigrwydd o 'Meistroli'r Gynghanedd' i 'Y Nofel' ac Ysgrifennu ar gyfer yr Arddedau. Mae'r tiwtoriaid yn cynnwys Elwyn Edwards, Peredur Lynch, John Rowlands, Harri Pritchard Jones ac Islwyn Ffowc Elis. Bydd Dic Jones a Manon Rhys yn diwtoriaid ar gwsr ysgrifennu cyffredinol, cwrs byr dros benwythnos.

Sefydlwyd Tŷ Newydd fel canolfan breswyl i ysgrifennwyr ar gyfer Cymru, gan Ymddiriedolaeth Taliesin. Ymddiriedolaeth elusennol ydyw a'r ymddiriedolwyr yw W. R. P.

yn gweld mai dyma'r unig ffordd i'r cwmni a'r dramodwyr wneud cyfiawnder a'r gystadleuaeth a thrwy hynny godi statws y ddrama yn ein Prifwyl.

Ychwanegodd Carys Tudor Williams, Cadeirydd Is-bwyllgor Drama Eisteddfod Genedlaethol Bro Delyn:

'Mewn cyfnod pan fo prinder aruthrol o ddramau llwyfan addas yng Nghymru, rydym yn ffyddiog mai dyma'r ffordd ymlaen i sicrhau llwyddiant Cystadleuaeth Tlws y Ddrama.'

George, Emyr Humphreys, Branwen Jarvis, Jonah Jones, David Lewis a Jan Morris. Cefnogir Taliesin gan Gyngor Celfyddydau Cymru sydd wedi cynnig grant blynyddol o £25,000 ar gyfer taliadau'r Tiwtoriaid a rhoddwyd cymorth ar y dechrau yng nghyfnod sefydlu'r ganolfan gan Gyngor Celfyddydau Prydain, Cyngor Sir Gwynedd, Yr Academi Gymreig, Y Cyngor Llyfrau Cymraeg a llawer o unigolion a chyrff eraill.

Adeiladwyd Tŷ Newydd ei hun yn yr 17eg ganrif fel tŷ bonedd, cymharol fychan. Fe'i helaethwyd yn y 18fed ganrif a'i foderneiddio yn yr 1930au gan Syr Clough Williams Ellis, y pensaer a greodd bentref Eidalaid Porthmeirion. Daeth yn gartref i David Lloyd George yn nechrau'r 1940au. Edrycha'r tŷ i lawr dros y gerddi, draw tua Bae Ceredigion a mynyddoedd Rhinog uwchben Harlech.

Mae'r rhan fwyaf o gyrsgiau a drefnwyd ar gyfer y tymor hwn yn rhedeg o ddydd Llun i ddydd Sadwrn ond y mae rhai cyrsiau penwythnos hefyd. Gall Tŷ Newydd gynnig lle i 16 o bobl ar bob cwrs, gyda dau diwtor. Anogir ysgolion, colegau a grwpiau ysgrifennu i gymryd mantais o'r cyrsiau ysgrifennu y gall Taliesin eu cynnig. Mae'n bosibl i bobl ar incwm isel dderbyn grant gan eu Hawdurdod Lleol neu Gymdeithas Gelfyddydau Rhanbarthol. Mae rhai ysgoloriaethau ar gael oddi wrth Taliesin.

Bydd Tŷ Newydd ar gael ar rai adegau o'r flwyddyn i ysgrifennwyr ddod i fwynhau'r heddwch a'r symbyliad y gall t tŷ a'i awyrgylch ei ddarparu.

Gellir derbyn ychwaneg o wybodaeth gan gyfarwyddwyr y ganolfan yn Nhŷ Newydd. Ffôn 0766 522811.

DISGYBLION YSGOL BRYNREFAIL

yn cyflwyno

DRAMA AC EITEMAU CERDD

yn Neuadd Ysgol Brynrefail

Nos Fawrth, Ebrill 3ydd

7.00 o'r gloch

Mynediad £1

TALIESIN

Ty Newydd, Llanystumdwy

CYRSIAU YSGRIFENNU

Gwanwyn a Haf 1990

CYRSIAU I DDECHREUWYR AC I YSGRIFENWYR MWY PROFIADOL

Ysgrifennu ar gyfer y llwyfan, ysgrifennu ar gyfer yr arddedau, barddoniaeth gaeth, y nofel, y stori fer, y nofel hanesyddol, ysgrifennu ar gyfer y teledu.

Tiwtoriaid:

Cefin Roberts, Valmai Jones, Harri Pritchard Jones, Islwyn Ffowc Elis, John Rowlands, Dic Jones, Menna Elfyn, Elfyn Pritchard, Marion Eames, Cyril Hughes, Elwyn Edwards

Am fwy o fanylion cysyllter â'r:

Cyfarwyddwyr, Ty Newydd, Llanystumdwy, Cricieth,
Gwynedd LL52 0LW Ffôn: Cricieth (0766) 522811

EISTEDDFOD CYLCH ARFON — YR URDD (Dan 12 oed) BUDDUGWYR

Allwedd: (B) — Adran Bentref Bontnewydd; (GG) — Ysgol Gwaun Gynfi; (LI) — Ysgol Gynradd Llanrug; (M) — Ysgol Maesincla; (SH) — Ysgol Santes Helen; (W) — Adran Bentref y Waunfawr; (Gelli) — Adran Tref y Gelli; (Bethel) — Adran Bentref Bethel.

CERDDORIAETH LLEISIOL

Dan 8 oed: 1, Manon Eluned Jones (B); 2, Elfed Morris (GG).

8-10 oed: 1, Karen Jones (B0); 2, Bethan Mair Williams (Gelli).

10-12 oed: 1, Rhian Medi Green (LI); 2, Lyndsey Vaughan Parry (GG).

Unawd Alaw Werin: 1, Bethan Mair Williams (Gelli); 2, Richard Evans (M).

Deuawd: 1, Rhian ac Awen Haf (B); 2, Rhian Medi a Beverley (LI).

Parti Adrannau Pentref: 1, Parti Lynne Anne (B).

Côr Adran Bentref: 1, Côr Nia (Bethel).

Parti Ysgolion Cynradd: 1, Parti Beverley (LI).

Côr Adran - Grŵp 3: 1, Côr Jennie Lynne (GG).

Côr Adran - Grŵp 4: Côr Lowri Anne (M).

Parti Deulais: 1, Parti Rhian Medi (LI).

CERDDORIAETH OFFERYNNOL

Unawd Piano: 1, Rhian Medi Green (LI); 2, Jackie Gibbins (LI).

Unawd Chwythbrennau: 1, Kirsty Leanne Jones (W).

Unawd Pres: 1, Sian Elen Thomas (GG); 2, Luned Mair Jones (LI).

Parti Recorders: 1, Parti Bethan (W).

Grŵp Cerddoriaeth Creadigol: 1, Grŵp Kathryn (SH).

Grŵp Offerynnol: 1, Grŵp Manon (W).

CERDD DANT

Unawd dan 8 oed: 1, Huw Geraint Jones (Gelli); 2, Catrin Gwenllian Roberts (B).

8-10 oed: 1, Bethan Mair Williams (Gelli); 2, Karen Jones (B).

10-12 oed: 1, Lyndsey Vaughan Parry (GG); 2, Elen Morgan Jones (LI).

Parti Ysgolion Cynradd: 1, Parti Alaw Mari (GG).

Côr Deusain: 1, Côr Dafydd Gwyn (B).

Parti Adrannau Pentref: 1, Parti Nia Haf (B).

ADRODD

Dan 8 oed: 1, Einir Wyn Thomas (B); 2, Elin Gwyn (B).

8-10 oed: 1, Alaw Mari Hughes (GG); 2, Michelle Louise Roberts (LI).

10-12 oed: 1, Lyndsey Vaughan Parry (GG); 2, Non Eluned Jones (Gelli).

Parti Ysgolion Cynradd: 1, Parti Claire (LI).

Parti Adrodd i Gyfeiliant: 1, Parti Meilyr (Gelli).

Parti Adrannau Pentref: 1, Parti Eleri (Bethel).

Dysgwyr - dan 8: 1, Rhian Pumglare (SH).

Dysgwyr - 8-10: 1, Alex Reading (SH).

Dysgwyr - 10-12: 1, Paula Dawrant (SH).

Ymgom Dysgwyr: 1, Parti Alex (SH).

CANU ACTOL

Ysgolion Cynradd: 1, Parti Gavin (Gelli).

DAWNSIO GWERIN

Parti dan 10 oed: 1, Parti Aled (Gelli).

Parti dan 12 - Adrannau Pentref: 1, Parti Susan (B).

Parti Ysgolion Cynradd: 1, Parti Gwenan (LI).

DAWNSIO DISGO

Unigol: 1, Caryl Owen (Bethel).

Grŵp: 1, Grŵp Lowri (Bethel).

Dyma ganlyniadau yr Eisteddfod hon lle y profwyd cystadlu brwd am gyfle pellach yn yr Eisteddfod Rhanbarth yn Neuadd Pritchard Jones, Coleg y Brifysgol, Bangor, Sadwrn 24 Mawrth 1990.

YSGOLION CYNRADD: Ysgol Gynradd Llanrug - 122 ½ (Tarian); Ysgol Gwaun Gynfi - 62; Ysgol Santes helen - 46; Ysgol Maesincla - 34; Ysgol Yr Hendre - 21.

ADRANNAU TREF/PENTREF: Adran Tref y Gelli - 109 (Tarian); Adran Bentref Bontnewydd - 95; Adran Bentref Bethel - 66; Adran Bentref Y Waunfawr - 29.

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

CYNHADLEDD GENEDLAETHOL — DEDDF IAITH NEWYDD

Ar ddydd Sadwrn, 24 Chwefror 1990, daeth 250 o gynrychiolwyr ynghyd i adeilad yr hen Goleg, Coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth, i Gynhadledd Genedlaethol a drefnwyd gan Urdd Gobaith Cymru i alw am ddeddf newydd ar gyfer yr Iaith Gymraeg.

Roedd cynrychiolaeth eang o fywyd cyhoeddus Cymru yno, yn aelodau etholedig o Gynghorau, sefydliadau, mudiadau, crefydd, addysg ac unigolion.

Cadeiriwyd y cyfarfod gan Lywydd yr Urdd, I. Prys Edwards, a chyflwynodd ef y pedwar siaradwr: Yr Arglwydd Gwilym Prys Davies, Syr Goronwy Daniel, Syr Melvyn Rosser, a Dafydd Wigley.

Mewn areithiau ysgubol galwodd y pedwar am weld Deddf Iaith effeithol ac ymarferol. Tra'n croesawu'r Drafft Fesur a gyflwynwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, teimlid nad oedd yr argymhellion hynny'n ddigonol yn eu ffurf presennol a galwyd am weld eu cryfhau'n sylweddol gan sefydlu Bwrdd Iaith statudol a fyddai a'i benderfyniadau'n annibynnol i'r Swyddfa Gymreig i warchod buddiannau'r Iaith Gymraeg i genedlaethau'r dyfodol.

Ar ddiwedd y cyfarfod

cyflwynodd Bob Roberts, Cadeirydd yr Urdd, y cynnig canlynol:

'Ein bod yn galw ar y Llywodraeth i gyflwyno yn ddioed Ddeddf Iaith Gymraeg newydd a fydd yn hyrwyddo'r defnydd, datblygiad a statws yr Iaith Gymraeg ym mywyd Cymru.

Galwn hefyd am sefydlu Bwrdd Iaith Statudol a fydd a'i benderfyniadau yn annibynnol ar y Swyddfa Gymreig ac yn meddu ar y pwerau a'r dyletswyddau angenrheidiol i weithredu gofynion y ddeddf yn y sector cyhoeddus a phreifat, ynghyd a pheirianwaith i sicrhau y cydymffurfir a gofynion y ddeddf a chanllawiau'r Bwrdd, ac a fydd yn sicrhau fod popeth a anelir at y gymuned yn dod yn naturiol ddwyieithog.'

- a gafodd dderbyniad unfrydol gan yr holl gynhadledd.

Eir ymlaen yn awr i gyflwyno canlyniadau'r gynhadledd i Fwrdd yr Iaith Gymraeg gan eu hannog i ymgorffori'r newidiadau a argymhellir yn y Drafft Fesur.

Mistar Oriog-Siriol

Echdoe fe lithrodd
Heibio i dalcen fy nhŷ,
Yn lwmpyn surbwchaid
A'i ben yn'i blu.

Roedd o'n gwenu ddoe
Ac yn glên chwarae teg
A'r geiriau'n llifeirio
O geunant ei geg.

Ond wir, bore heddiw
Wrth fynd ar ei hynt,
Fe'm pasiodd fel baw
A'i ben yn y gwynt.

'Hold on', mae'n fy nghyfarch,
Tydi'r brawd ddim yn flin,
'Ty'd acw os mynni
Am lasiad o win'.

'Tchyd da, Mistar Siriol
'Na'i ddim aros, na wir,
Mae Mistar Oriog yn siwr
O ddychwelyd cyn hir.'

SELWYN GRIFFITH

NANT PERIS

Gohebydd: Ann Fleming,
'Dolwen', 8 Nant Fynnon
(871457)

DIOLCH: Dymuna Mrs Nellie Roberts ddolch i'w theulu a'i chyfeillion am y llu cardiau, blodau ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phenblwydd diweddar. CYDYMDEIMLO: Cydymdeimlwn â Mr Peter Welsby a'r teulu yn ei brofedigaeth o golli ei ewythr o Warrington.

Emyr Jones

PLYMAR A
PHEIRIANNYDD
GWRESOGI

Cynnal Boileri nwy,
olew, tanwydd solat
a thredio peipiau

44 Glanffynnon
LLANRUG
Caernarfon 3513



LLEUFER O. ac N. PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI WAUNFAWR



DEWIS EANG O
WELAU SENGL A DWBL
DEWIS EANG O '3 PEICE SUITES'
LLENNI 'VENETIAN' A LLENNI 'ROLER'
GWAITH CONTRACT
5000 LLATHEN SGWâr O GARPEDI
MEWN STOC - ALLWCH CHI
FFORDDIO PRYNU O BATRYMAU?

Rhif Ffôn y Siop yn ystod oriau agor:
WAUNFAWR 291

AR AGOR
9-7pm
9-5pm Sadwrn
AR GAU
SUL,
MERCHER.

GLASLYN ANTIQUES

STRYD FAWR, LLANBERIS

PRYNIR A
GWERTHIR

Hen Bethau, Darluniau
a Dodrefn y gorffennol

FFÔN:
LLANBERIS
870080

PWYLLGOR PRYSUR Y DYSGWYR

Nodwedd Gymreig ydi'r arfer o gynnal pwyllgor, medden nhw, ond dydi llawer o aelodau ffyddlonaf Pwyllgor Dysgwyr, Eisteddfod yr Urdd, ddim yn Gymry cynhenid. Mewn fudwyr ydyn nhw sy'n rhoi o'u hamser a'u hegni yn llawen i gefnogi Cymreictod y fro y maent wedi'i mabwysiadu ac yn profi, wrth wneud hynny, bod ochr dda i bob ceiniog.

Mi gawsant fedydd tân yn y grefft o bwyllgora. Ers dwy flynedd a mwy bu'r pwyllgor yn eithriadol brysur. Bu'n rhaid llunio testunau ar gyfer adrannau Dysgwyr yr Eisteddfod - y llên a'r adrodd. Ymatebodd wyth o feirdd lleol i gais y pwyllgor i gyfansoddi cerddi newydd sbon ar gyfer y cystadlaethau adrodd ac mae mynd mawr ar y casgliad a gyhoeddwyd - 'Llais Llifon'. Bellach, mae'r pwyllgor wrthi'n brysur yn paratoi rhaglen ac arddangosfa ar gyfer Pabell y Dysgwyr ar faes yr Eisteddfod. Eisoes, cytunodd pobl fel Syr Wynff a Plwmsan, Angharad Tomos, Owain Gwilym a Iola Gregory i ddod yno i ddiddori plant o bob oed ac mae'r gwaith o drefnu gemau, cystadlaethau, sioe fideo a llawer o bethau difyr eraill ar y gweill.


Ac, wrth gwrs, rhaid codi arian i dalu am hyn i gyd. Trefnodd y pwyllgor Noson Gaws a Gwin lwyddiannus y llynedd ac mae'r trefniadau ar gyfer noson debyg wedi'u cwblhau yn barod. Cynhelir y noson ym Mhlas Glynllifon am 7.30 o'r gloch, nos Wener, Ebrill 6. Bydd yno ddigonedd o gaws a gwin (alcoholaid a di-alcohol). Bydd cerddoriaeth draddodiadol a chyfoes dan ofal Elinor Bennett, ac Ifor Baines fydd 'Meuryn' y cystadleuthau a'r tasgau. Ffwlbri Ebrill' ydi teitl y noson ond does dim angen bod yn ffwl i gael dod yno. Mae'r pwyllgor yn gobeithio mai ond ffyliaid fydd yn aros gartref!

BROGA YN STABLAU

Ceffylau yn tynnu troliau o lechi ar hyd lein y chwarel oedd yn arfer cael eu cadw yn y Stablau, ger Craig y Dinas, rhwng Penisarwaun ac afon Seiont. Ond heddiw, mae'r ceffylau a'r hen lein fach wedi diflannu. Bellach, daeth Broga i gymryd eu lle. Busnes bychan a sefydlwyd gan Owen Smith yw Broga, yn cynhyrchu defnyddiau dysgu gwyrdd, a Broga sy'n gyfrifol am 'Gêm y Coed', sy'n profi llwyddiant mewn ysgolion a sefydliadau addysgol led-led Cymru a Lloegr.

Gêm newydd yw 'Gêm y Coed' a ddatblygwyd gan Owen Smith a Jill Jackson dros gyfnod o ddwy flynedd gyda chymorth ariannol gan yr 'Enterprise Scheme'. Mae'r gwaith argraffu wedi ei wneud yn lleol gan Argraffwyr Eryri ym Methel, ond Owen a Jill sy'n gosod y cyfan gyda'i gilydd yn eu bwthyn bychan yn Nhaf Madog.

Amcan 'Gêm y Coed' yw tyfu coed o fewn eu cynefinoedd priodol drwy symud darnau ar draws bwrdd efo dîs. Fel ym mhob gêm dda, mae rhywfaint o lwc a rhywfaint o sgil ei angen i ennill. Ond mae'r gêm hon hefyd yn dysgu llawer am yr amgylchfyd, a lle'r gwahanol goed o'i fewn.



Ar gardiau wedi eu laminadu, ceir lluniau a gwybodaeth berthnasol am nifer helaeth o goed naturiol ein gwlad. Mae hefyd wybodaeth am wahanol gynefinoedd coed, meis coedwig, cors, parc, gwrych, mynydd a phlanhigfa gonwydd. Wrth i'r chwaraewr symud o amgylch y bwrdd mae'n codi cardiau siawns sy'n egluro gwahanol agweddau ar gadwraeth megis draenio tir neu godi gwrychoedd. Gallant hefyd egluro peryglon fel gorburi neu law asid. Yn ogystal



© BROGA 1989



Owen Smith a Jill Jackson yn dangos sut mae chwarae 'Gêm y Coed'.

â chardiau siawns, mae cardiau ffawd. Mae'n debyg mai'r ffordd orau o egluro pwrpas y rhain yw eu disgrifio fel cardiau 'trumps' er mwyn atal chwaraewyr eraill rhag ennill. Mae'r rhain yn cynnwys bwyell y coedwigwr, cwningod a llifogydd. Yr enillydd yw'r un sy'n defnyddio'i allu i dyfu tair coeden i'w llawn dŵf yn eu cynefin priodol.

Mae 'Gêm y Coed' yn addas i ddau hyd bedwar o chwaraewr dros ddeg oed, er fod y gwneuthurwyr yn egluro y gall rhieni neu athrawon ei haddasu ar gyfer plant iau. Mae'n bosibl chwarae'r gêm mewn timau hefyd, sy'n ei gwneud yn addas i ddisgyblion mewn dosbarth ysgol.

Daw'r gêm ar ffurf boc wedi ei wneud o bren meddal, sy'n dal yr holl ddarnau a'r cardiau. Mae'r darnau a'r dîs wedi eu gwneud o bren caled, ac mae'r cardiau a'r papur a ddefnyddiwyd wedi ei gylchredu. Does dim pren o goedwigoedd

trofannol yn y gêm.

Mae'r gêm yn cael eu chynhyrchu yn Gymraeg a Saesneg, a gobaith Broga yw cynhyrchu mwy o ddefnyddiau am yr amgylchfyd yn y dyfodol. Os oes unrhyw un o ddarlennwyr yr 'Eco' a syniadau, byddai Owen a Jill yn falch o glywed gennych.

TAN-Y-COED

Gohebydd: Bethan Parry, Ael y Bryn. Ffôn 872 276.

GWELLHAD BUAN: Da gennym glywed fod Mrs Gwyneth Thomas wedi cael dod adref o'r ysbyty a'i bod yn gwella.

YMADAEL: Trist oedd clywed for Mr a Mrs R. Wynne yn ein gadael, ar ôl bod yn y pentref am dros hanner canrif. Fe fydd y ddau yn ein gadael i fynd i Craig y Mor, Llanfairfechan, at eu merch Mrs Einir Shepherd.


Fe fydd colled mawr ar eu holau. Pob lwc iddynt.

Gwesty Dolbadarn LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser
Aneuryn a Jeanette Jones a'r staff

FFENESTRI UPVC DRYSAU MEWN GWYN NEU MAHOGANI



Esiaml o bris a gosod

Crefftwyr profiadol yn eu gosod
Ffoniwch am bris i

**J R PRITCHARD, 14 Glanrafon,
Bontnewydd**

Ffôn: Caernarfon 3507 (dydd neu gyda'r nos)

Croesawn ymholiadau gan fasnachwyr

PENISARWAUN

Gohebydd: Mrs Ann Evans, Sycharth (872407)

LLONGYFARCHIADAU i Ffion a Derec Roberts, Bryn Eglwys, ar enedigaeth merch fach arall, Elin Mair, chwaer i Manon a Catrin. Llongyfarchiadau hefyd i nain a taid, sef Myfanwy a Dic Parry, Tawelfa.

GWELLHAD: Anfonwn ein dymuniadau gorau am wellhad buan i Mr Ron Hughes, Nathan Jones, Dafydd Dafis a Bedwyr Ifans wedi'u triniaeth yn yr ysbyty. Dymunir adferiad sydyn i Rheon Larsen, yntau wedi cael triniaeth i'w ysgwydd - gobeithio y byddi wedi llwyr wella erbyn dy arholiadau Rheon - a phob dymuniad da i ti.

CAPEL BOSRA: Cynhaliwyd gwasanaeth Dydd Gweddi Byd Eang y Chwiorydd yng Nghapel Bosra ar Fawrth 2. Daeth nifer o chwiorydd y fro ynghyd. Mrs Delyth Williams oedd y llywydd a cafwyd anerchiad ardderchog gan Miss Doris Adlam. Mrs Nansi Jones oedd yn cyfeilio. Rhai o'r chwiorydd a gyfrannodd at y gwasanaeth oedd Mrs Eirlys Jones, Mrs Eluned Jones, Mrs Betty Hughes, Mrs Nansi Jones, Mrs Eileen Thomas, Mrs Ann Evans, Miss Mair Foulkes, Mrs Nanw Evans, Mrs Elizabeth Jones, Mrs Mary Davies, Miss Eurgain Haf Evans, Miss Sioned Williams, Mrs Eleanor Jones, Mrs Bessie Williams a Mrs Pat Larsen.

Diolch i bawb am eu cyfraniad ac am eu parodrwydd i gynnal y gwasanaeth bob blwyddyn.

YSGOL SUL BOSRA: Y mae'r plant yn brysur yn dysgu eu gwaith ar gyfer y ddwy Gymanfa. Bydd Cymanfa'r Annibynnwyr yn Ebeneser, Deiniolen ar Ebrill 22 am 2.00 pm. Trefnir bws. Cynhelir Cymanfa'r Wesleaid yn Ebeneser, Caernarfon, Ebrill 29.

Bydd rhai o aelodau'r Ysgol Sul yn cael cyfle hefyd i gymryd rhan yn Chwaraeon Cyngor Ysgolion Sul Arfon. Pob hwyl iddynt.

PWYLLGOR NEUADD: Tynnwyd Clwb Cant Chwefror yn Sycharth a'r enillwyr oedd Arwel Jones, Emyr Williams, a Jean Roberts. Tynnir Clwb Cant Mawrth mewn pwyllgor a gynhelir ddiwedd y mis.

Cynhelir **Noson Gymdeithasol** i'r pentref yng Ngwesty Fictoria, Nos Wener, Ebrill 27. Croeso cynnes i bawb, yn cynnwys plant. Enwau

os gwelwch yn dda i Ann Ifans, Elizabeth Jones, neu unrhyw aelod o'r pwyllgor. Trefnir bws. Prisiau - Cyw lâr neu Scampi - £3.50; Plant - Selsig a Sglodion - £2.50.

Tynnir Clwb Cant Ebrill ar y noson hon.

YSGOL TAN-Y-COED: D gennym glywed fod Eryl yn dal i wella a gobeithir ei weld yn ôl yn yr Ysgol ar ôl gwyliau'r Pasg. Gwnaethpwyd casgliad anrhydeddus o £65 tuag at Ward y Plant, Ysbyty gwynedd, yng ngwasanaeth Gŵyl Dewi yng Nghapel Bosra. Diolchir i bawb am eu cyfraniad.

CRONFA APÊL YR URDD, NANTLLE AC ARFON: Er mwyn ceisio cyrraedd y nod o £1,500 tuag at yr Eisteddfod cynhelir Noson Goffi gyda eitemau gan y plant yn Neuadd yr Eglwys, nos Iau, Mawrth 29. Tynnir y Raffl ar y noson. Erfyniwn am eich cefnogaeth er mwyn ceisio cyrraedd y nod.

LLETY A CHROESO: Y mae galw mawr am Lety i blant Cymru yn ystod yr Eisteddfod, os dymuna unrhyw un gymryd un neu ddau o blant am noson neu ddwy o Mai 28-Mehefin 2, a fuasech garediced â chysylltu ag Amranwen Lynch neu Ann Ifans. Diolch yn fawr.

GAIR O DDIOLCH: Dymuna Mrs Elen Williams, 2 Bryn Tirion, ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y llu



Tybed a oes rhywun yn adnabod y chwarelwyr yma? Thomas Jones, 2 Tai Madog, Brynrefail yw'r ail o'r dde i'r llun - ond pwy yw'r lleill? Buasem yn falch o glywed gan rhywun.

cardiau a phob arwydd o garedigrwydd wedi ei thriniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Dymuna Sharon Owen ddiolch i'w rhieni, i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau ac anrhegion ar achlysur ei phenblwydd yn 21 yn ddiweddar. **TEYRNGED DR DAN R. HUGHES:** Cynhelir cyfarfod o deyrnged i Mr D. R. Hughes yn Ysgol Uwchradd Brynrefail, Nos Iau, Ebrill 5. Drysau ar agor am 7.00 pm.

LLONGYFARCHIADAU i Mr a Mrs J. E. Williams, Gors, Allt Riwth, ar achlysur dathlu eu Priodas Ruddem ar Fawrth 25.


URDD BENTREF PENISARWAUN: Ar Chwefror 22, cafwyd gêm bel rwyd yn erbyn tîm Waunfawr, a

roddodd gweir i'n genod ni. Diolchir i Mrs Fletcher am darparu'r gêm.

Yn Eisteddfod Cylch dan 15 oed, bu Sioned Lewis (dawnsio gwerin), Delyth Price (unawd) a Hefina a Delyth (Deuawd) yn llwyddainnus i fynd i'r Eisteddfod Sir.

Yn yr Eisteddfod dan 12 oed, ni fu neb yn llwyddainnus ond da oedd gweld y plant yn mwynhau eu hunain yn y Dawnsio Disgo ar y llwyfan. Diolchir i Mrs Judith Harding a Miss Rhian Price Williams am eu dysgu, ac i Mrs Carys Jones am eu cymorth gyda'r adrodd a'r canu. Diolch hefyd i Dylan a Howard a fu yn cyfeilio i'r dawnsio gwerin.

BILL ac EILEEN GRIFFITHS



**Antiques
Ivy Cottage
BETHEL**

Ffôn:
Y FELINHELI 670556

PRYNWYR A GWERTHWYR HEN BETHAU

Telir prisiau da
Trafodir busnes yn gwbl breifat a chyfrinachol

W.J. GRIFFITH

PLYMAR A GOSODWR
GWRES CANOLOG
PANT TIRION, LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 673248

Gosodwyr
Nwy
Cofrestedig
Corgi



Aelod o'r
Association of
Plumbing and
Mechanical
Services
Contractors

Dim un dasg rhy fychan
Dim un dasg rhy fawr

Am waith
PEINTIO, ADDURNO
a mân atgyweirio oddi mewn
neu tu allan am bris rhesymol
cysyllter ag

ERIC JONES

17 BRYN TIRION

PENISARWAUN

Ffôn: LLANBERIS 872421

SIOP
Nwyddau Gardd
Cynnyrch Cartref
Crefftwaith



CANOLFAN
GARDIO
Blodau, Grug
Alpau, Perthi

ANTUR WAUNFAWR

Ffôn: Waunfawr 721

Cynnal a Chadw Gerddi
Cynnal a Chadw
Plannu Coed

Meinciau Concridd a Phren
Planters Concridd a Phren
Corachod

'N DAL YMA !

Blwyddyn yn ôl bu i'r Eco gyhoeddi canlyniadau ymchwiliad a wnaed i safle'r Gymraeg o fewn y fro hon. Yn nhreigladd y misoedd teg felly yw edrych ar y sefyllfa fel ag y mae erbyn hyn, gan ganolbwyntio ar ysgolion y dalgylch unwaith yn rhagor ac yn ogystal ar bentrefi y Waunfawr a Betws Garmon. Diolchir am gyd-weithrediad parod y prifathrawon a staff yr ysgolion a nodir. Er mwyn cymharu - a phoenyddio wrth reswm - mae'n ofynnol ail gofnodi rhai o'r ystadegau a ymddangosodd yn rhifyn Mawrth 1989 o Eco'r Wyddfa.

WAUNFAWR

Erbyn 1988/89 mae nifer yr etholwyr dros 18 oed wedi cynyddu i 780 - cynnydd o 51 mewn tair blynedd ar ddeg. O ddadansoddi'r 780, ymddengys mai lleihau y mae nifer y Cymry Cymraeg yn y pentref. Ym 1987 roedd 490 o'r 767 yn Gymry Cymraeg, sef canran o 63.9% a chanran y di-Gymraeg yn 36.1%. Ymhen y flwyddyn, sef 1988/89, gwelir fod canran y Cymry Cymraeg wedi disgyn i

61.9% (483) a'r di-Gymraeg wedi cynyddu i 38.1% (297). Mae'r ffigyrau hyn yn dangos fod cynnydd y di-Gymraeg wedi cyflymu'n weddol sylweddol rhwng 1987 a 1988 ac i unrhyw un sydd yn clustfeinio wrth gerdded o gwmpas y pentref nid yw hyn yn syndod o gwbl. Efallai mai'r ffaith fwyaf arswydus yw fod 12% yn llai o Gymry Cymraeg yn y Waunfawr yn 1988/89 nag oedd yn 1976!

MANYLION AM Y WAUNFAWR 1976-1988

ETHOLWYR

Blwyddyn	Etholwyr	Cymry Cymraeg	Canran	Di-Gymraeg	Canran
1976	729	541	74.3%	188	25.7%
1982	746	517	69.3%	229	30.7%
1986	759	485	63.9%	274	36.1%
1987/88	767	490	63.9%	277	36.1%
1988/89	780	483	61.9%	297	38.1%

Y gwir yw os y bydd y mewnffudo yn parhau ar y raddfa bresennol yna ymhen chwe blynedd bydd mwy na hanner trigolion y Waunfawr yn ddi-Gymraeg - yn sicr erbyn diwedd y ganrif.

Pe byddech yn galw yn aelwydydd y Waunfawr ym 1976 byddai'r sgwrs yn yr iaith Saesneg mewn 115 o'r 391 aelwyd ond heddiw mae'n ofynnol i chwi droi i'r 'iaith fain' mewn cynifer a 178 o aelwydydd y pentref - cynnydd sylweddol mewn 13 blynedd.

O sylwi ar y cynnydd cyson yn y mewnffudo i bentref y Waunfawr mae'n anodd deall paham na

restrwyd Waunfawr ymysg y penrefi o gymunedau gwledig ble bydd dirywiad mawr erbyn y flwyddyn 2001 yn nifer y Cymry Cymraeg, fel y datgelwyd ar y rhaglen deledu 'Week In, Week Out'. Nid wyf hyd yn hyn wedi cyfarfod ag unrhyw un a gafodd ei holi gan ymchwilydd o'r rhaglen honno, felly teg yw gofyn a fu rhywun yma o gwbl? (Mae'n wir dweud fod Betws Garmon ymysg y pentrefi a restrwyd).

Adeiladwyd stâd o dai unllawr yn y pentref yn ddiweddar a da yw cofnodi fod teuluoedd Cymreig a Chymraeg wedi dod i fyw i nifer ohonynt.

AELWYDYDD

Blwyddyn	Nifer yr Aelwydydd	Nifer y Cymry Cymraeg	Canran	Di-Gymraeg	Canran
1976	391	276	70.0%	115	30.0%
1986	410	261	63.0%	149	31.0%
1987/88	424	267	63.0%	157	37.0%
1988/89	432	254	58.7%	178	41.3%

MANYLION AM FETWS GARMON 1981-1988

ETHOLWYR

Blwyddyn	Etholwyr	Cymry Cymraeg	Canran	Di-Gymraeg	Canran
1981	114	44	39%	70	61%
1984	120	45	37%	75	63%
1987/88	135	43	32%	92	68%
1988/89	134	42	32%	92	68%

AELWYDYDD

Blwyddyn	Nifer yr Aelwydydd	Nifer y Cymry Cymraeg	Canran	Di-Gymraeg	Canran
1981	57	21	37%	36	63%
1984	57	21	37%	36	63%
1987/88	64	18	28%	46	72%
1988/89	67	18	27%	49	73%

YSGOLION DALGYLCH ECO'R WYDDFA

Fel y gwyyddys mae 7 ysgol gynradd ac un ysgol uwchradd yn y dalgylch a charwn ddiolch i'r prifathrawon am eu cydweithrediad parod unwaith yn rhagor.

Gofynnwyd pedwar cwestiwn: (a) Nifer y plant yn yr ysgol Hydref 31, 1989.

(b) Nifer o'r rhain sydd yn dod o gartrefi di-Gymraeg.

(c) Nifer y plant a ddaeth i'r ysgol o'r newydd ym mis Medi 1989.

(d) Nifer o (c) a ddaeth o gartrefi di-Gymraeg.

Roedd pob prifathro y bum mewn gohebiaeth â hwy yn pwysleisio fod nifer helaeth o'r di-Gymraeg yn yr ysgolion wedi cyrraedd safon derbyniol o fedrusrwydd yn y Gymraeg.

O gymharu ffigyrau 1989 a ffigyrau y flwyddyn flaenorol sylwir ar y lleihad yng nghyfanswm y plant sy'n mynychu ysgolion y dalgylch - 38 yn llai ym 1989. Er hyn mae cynnydd sylweddol yn nifer y plant sydd yn ddisgyblion yn ysgol Bethel - 23 mewn blwyddyn, ond lleihad o 17 yn nifer y plant sy'n mynychu ysgol Llanrug. O sylwi ar yr adeiladu tai cyson a welir ym Methel nid syndod yw'r cynnydd hwn. Ers talwm Ysgol Dolbadarn, Llanberis, fyddai prif ysgol gynradd (gyngor) yr ardal ac os cofiaf roedd yno dros 300 o blant ar un adeg, erbyn heddiw mae'r nifer i lawr i'r hanner.

Ymddengys fod nifer y plant sydd yn dod o gartrefi di-Gymraeg yn dal i gynyddu - 29% ym 1989 o'i gymharu a 25% ym 1988 ond mae lleihad yn nifer y plant o gartrefi di-Gymraeg a dderbyniwyd i'r 8 ysgol ym mis Medi 1989, sef 59 o'i gymharu a 70 y flwyddyn gynt. Sylwer mai yn yr ysgol leiaf, sef Cwmyglo, y ceir y canran uchaf o'r di-Gymraeg.

Dengys yr ystadegau am ysgol Brynrefail ostyngiad o 30 yng nghyfanswm y plant ond y ffaith bryderus a ddaw i'r amlwg yw fod canran y rhai o gartrefi di-Gymraeg yn yr ysgol wedi cynyddu i 26.7% o'i gymharu a 14% flwyddyn ynghynt. Prysuir eto i ddweud fod y mwyafrif o'r cyfryw rai yn gallu siarad Cymraeg yn eithaf rhugl ar hyn o bryd. Serch hynny mae'r cynnydd hwn yn fater o bryder gan ei fod yn cyd-redeg o bosibl a chynnydd yn nifer y rhieni di-Gymraeg.

Yn gyffredinol does dim amheuaeth fod cynnydd eto yn nifer y di-Gymraeg sydd wedi symud i fewn i'r ardaloedd hyn - mae hynny'n eithaf clir ond i chi glustfeinio ar iaith y sgysiau yn siopau, tafarndai, meddygfeydd a meysydd chwarae ein gwahanol bentrefi.

A rhaid i mi gyfaddef na welaf newid yn y sefyllfa o gwbl, gwaetha'r modd.

Rol Williams
Mawrth 1990.

Wele'r canlyniadau am 1989 (ffigyrau 1988 mewn cronfachau)

Ysgol	(a)	(b)	Canran y rhai yn (b)	(c)	(d)
Llanrug	205 (122)	47 (53)	23 (23)	21 (27)	5 (9)
Bethel	175 (152)	51 (43)	29 (28)	20 (20)	9 (6)
Llanberis	149 (146)	54 (62)	36 (42)	24 (24)	4 (12)
Deiniolen	136 (138)	49 (51)	36 (37)	24 (22)	8 (9)
Waunfawr	109 (123)	39 (46)	35 (37)	9 (20)	4 (11)
Penisarwaun	54 (58)	8 (17)	33 (30)	4 (11)	1 (6)
Cwmyglo	42 (37)	17 (15)	40 (39)	4 (4)	2 (2)
Cyfanswm yr Ysgolion Cynradd	870 (876)	275 (287)	31 (32)	106 (128)	33 (55)
Ysgol Brynrefail	576 (606)	154 (86)	26 (14)	103 (75)	26 (15)
Cyfanswm yr 8 Ysgol	1446 (1482)	429 (373)	29 (25)	209 (203)	59 (70)

BETWS GARMON

Ni fu cynnydd yn nifer yr etholwyr dros 18 oed ym Metws Garmon ym 1988/89. O'r 134 o etholwyr, roedd 42 ohonynt yn Gymry Cymraeg a 92 yn ddi-Gymraeg. Mae'r canran fel ag yr oedd ym 1987/88 sef 32% Cymry Cymraeg a 68% yn ddi-Gymraeg, ond o'r 67 o aelwydydd yn y fro ni fyddai

modd i chwi gynnal sgwrs yn yr iaith Gymraeg ond mewn 18 ohonynt, ers blyneddodd bellach.

Yn yr ardal hon fel y soniwyd y llynedd mae'r mewnffudwyr wedi addasu hen adeiladau amaethyddol ar rai o'r mân dyddynod i fyw ynddynt - eraill yn byw mewn carafannau ar dir y tyddynod hynny.

CWM-Y-GLO

Gohebydd: Mrs Iris Rowlands, 'Glanrafon' (872275)

LLONGYFARCHIADAU i Mary a John Roberts, Ty'n Ffridd ar ddathlu eu Priodas Ruddem.

Hefyd i Betty ac Ifan Owen, 14 Dôl Afon, ar ddathlu eu priodas Arian.

DIOLCH: Dymuna Mary a John O. Roberts, Tyn-y-Ffridd, ddiolch o galon i'w teulu a'u ffrindiau oll am y cardiau a'r anrhegion a gafwyd ar achlysur eu Priodas Ruddem.

CYDYMDEIMLAD: Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Mr Ifan Owen a'r teulu, 14 Dôl Afon, yn ei brofedigaeth o golli ei fam. GYRFA CHWIST: Cynhelir Gyrfa Chwist yn Ysgol Gymuned Cwm-y-Glo ar nosweithiau Mercher, Ebrill 11 a 25 am 7.15 o'r gloch. UNDEB Y MAMAU: Cyfarfu aelodau o Undeb y mamau yn Eglwys Sant Gabriel nos Fawrth, Mawrth 13. Gweinyddwyd cymun y Garawys gan y Parch Peter Pritchard. Yn ystod y gwasanaeth derbyniwyd pedair aelod newydd sef Mrs Margaret Latham, Mrs Sandra Birbeck, Mrs Menai Roberts a Mrs Joan Side. Cysegrwyd lliain ar gyfer gwasanaeth Undeb y mamau a oedd wedi ei wneud gan Mrs Ransom.

Cafwyd paned wedi ei darparu gan aelodau Cwm-y-Glo yn yr Ysgol Gymuned, a diolchwyd i'r gwesteion gan Mrs S. Edwards.

Rhodddwyd y raffl gan Mrs Edwards ac fe'i henillwyd gan Mrs J. Side.

Bydd y cyfarfod nesaf nos Fercher, Ebrill 4 yn Bwthyn y Grug, Llanrug.

CLWB IEUENCTID: Erbyn diwedd y mis yma bydd tymor y Clwb am y Gaeaf wedi dod i ben. Mae wedi bod yn dymor prysur ac amrywiol iawn. Yn ystod y ddau fis diwethaf bu'r aelodau yn ymweld â'r Dome yng Nghaernarfon ar ddau achlysur, y to cyntaf i ddawns Gŵyl Sant Ffolant, ac yn ail i wyllo cystadleuthau Diso Dawns a drefnwyd gan Gymdeithas Clybiau Ieuencid Cymru. Hefyd erbyn i chi ddarllen y nodiadau hyn bydd yr aelodau wedi mynychu dawns yn yr Octagon, Bangor, tra ar Ebrill 1 trefnir trip i Alton Towers.

Yn ychwanegol at hyn mae sawl ymwelydd diddorol wedi troi i mewn i'r Clwb. Un noson fe gafwyd tipyn o hwyl yn gosod patrymau o bob math ar grysau 'T'

tra ar noson arall cafwyd agoriad llygad ar sut y gwneir gwaith coluro ar gyfer defnydd teledu.

Hoffai'r Arweinydd ddiolch i Mrs Sulen Roberts, yr Is-Arweinydd am ei chfnogaeth a'i chydweithrediad. Yr un yw'r diolch i'r Prifathro a Glanhawraig yr Ysgol, ac i arweinyddion Clybiau Ieuencid eraill yr ardal am ganiatau i'r Clwb gael rhannu cludiant gyda hwy wrth dalu ymweliadau â gwahanol weithgareddau adloniadol.



Gwaith glanhau Afon Goch fel rhan o'r cynllun i atal llifogydd yn y pentref.

YR YSGOL GYMUNED: Y mis diwethaf yr oeddem yn edrych ymlaen at weld Mrs Hughes, o'r Coleg Normal, yn dod yma. Erbyn hyn, mae'n amser iddi ein gadael, bron. Cyn iddi fynd, manteisiwn ar y cyfle yma i ddiolch iddi am bob cymwynas, ac i ddymuno yn dda iddi yn y dyfodol.

Mae yna arlunydd da yn ein mysg erbyn hyn, hefyd. Matthew Barnicott yw ei enw ac mae Matthew wedi ennill gwobr o Set Baentio fawr, fawr, mewn cystadleuaeth a noddwyd gan y Co-op. Da iawn, Matthew, daliwch ati.

Wyddoch chi fod Eco'r Wyddfa yn cael ei ddarllen yng Nghaerffili? Wel, mae o. Dyna sut y cafodd Safon 1 a 2 set newydd sbon o ffrindiau, ac erbyn hyn mae llythyrau yn dechrau mynd yn ôl a 'mlaen rhwng y De a'r Gogledd. Ella y cawn ni weld ein ffrindiau newydd yn Eisteddfod Dyffryn Rhymni ac efallai y caiff Mr Williams weld ambell i hen ffrind

hefyd.

Bu Donna Williams a Sara S. Roberts yn cymryd rhan yng Nghyngerdd Cerddorfa Ieuencid Gwynedd yng Nghaernarfon. Da iawn chi, ferched. Mae Martin yn pitio yn arw na fasa fo wedi medru bod yno yn gwrandio arnoch!

Diolch i bawb a gefnogodd ein cais i godi arian i Apêl Towyn i ddigolledu'r rhai a ddioddefodd yn y fan honno. Diolch o galon i bawb.

Diolch hefyd i'r plant a wnaeth gerdyn i fachgen bach yn Surrey. Gobeithio y bydd yntau yn llwyddiannus yn ei gais i gael ei enw yn Llyfr Recordiau Ginis. (Fydda i byth yn yfed y stwff, felly fedra i ddim sillafu ei enw fo chwaith!!)

Cawsom syrpreis bach neis fore Llun pan gerddodd Anti Margaret i lawr i'n gweld. Braf deall fod Mrs Williams yn gwella a'i bod yn cryfhau ddigon i ryddhau Mr Williams o'i ddyletswyddau wrth y sinc. (Mr Williams y gŵr — nid fi!)

Rargian fawr, tydfi mis yn mynd heibio'n gyflym d'wch. Prin gael cyfle i ddarllen y rhifyn diwethaf ac mae'n amser paratoi ar gyfer y nesaf. Tan tro nesaf, hwyl fawr a mwynhewch y Gwyliau.

Annwyl Olygydd

Gan ei fod yn boen i lawer un nad oedd plant o'r ysgol yn cymryd rhan yn Eisteddfod Glych yr Urdd yn ddiweddar, mentraf ofyn am ofod yn eich papur i egluro pam.

Y rheswm, yn syml iawn, yw nad oedd digon o blant wedi ymaelodi. Trwy gydol Tymor yr Hydref, bu'r adran yn cyfarfod ar brynhawn dydd Mawrth. Gan fod yr Urdd yn dweud nad oedd raid ymaelodi tan ddechrau'r flwyddyn, ni phwyswyd ar neb i wneud hynny, ond erbyn Rhagfyr 19, 1989 yr oedd 9 wedi ymaelodi. Nid oedd y naw yn aros ar ôl i'r adran. Yn wir, rhyw bedwar fyddai'n aros a rheini yn blant, ran amlaf, o ardal Brynrefail. Y rheswm am hyn, mae'n debyg, oedd eu bod yn cael eu cludo adref gennyf fi. Bu i eraill aros ar ôl ond er gofyn, dewisont beidio ymaelodi. I hwyluso pethau i rai oedd yn methu aros oherwydd amrywiol alwadau, newidiwyd y noson ond ni fu'r ymateb ddim gwel.

Sylweddolaf na ellir gorfodi neb i ymaelodi â'r Urdd gan ami dewis personol a gwirfoddol sy'n penderfynum hynny ond er gofyn a threfnu gwahanol weithgareddau o'm dewis i, o ddewis y plant ac o gyd-ddewis ni chafwyd presenoldeb teilwng yn yr adran. Oherwydd hyn, dewisais beidio a chynnal cyfarfodydd.

Mae'n wir fod pump arall wedi ymaelodi cyn diwedd Ionawr ond yr oedd hyn efo'r bwriad o fod yn addas ar gyfer eu dewis i ddawnsio yn y prif seremonïau.

Caiff y plant o'r adran lau yr un dewis eto ym mis Medi 1990, h.y. ymaelodi â'r Urdd os dymunant ond os na fydd nifer teilwng yn dewis gwneud hynny ni fydd yr adran yn cyfarfod nac yn cystadlu fel adran ysgol. Y mae croeso i

DYDDIAD I'W GOFIO

27. Gwener: LLANBERIS: Te yr Henoed. DEINIOLLEN: Bingo yn Ystafell y Band, 8.00. PENISARWAUN: Noson Gymdeithasol yn y Fictoria, Llanberis.

unrhyw un sydd yn dymuno gwneud hynny, i drefnu cyfarfodydd i'r adran a'i galw yn Adran Bentref. Gobeithio y cânt well cefnogaeth.

Yn gywir iawn,

J RICHARD WILLIAMS,

(Pennaeth Ysgol Gymuned Cwm y Glo, ac Arweinydd yr Adran, pan fo galw.)

CLWB POBOL Y CWM: Mr Williams ein Prifathro oedd ein Gŵr Gwadd ar Chwefror 22, a chroesawyd ef gan y llywydd, Mr Llew Hughes. Dywedodd Mr Williams fod cael mynd ar daith i'r Aifft wedi bod yn freuddwyd ac uchelgais ganddo ers blyneddoddd, a'r haf diwethaf aeth ef a'i briod am wyliau yno. Drwy sleidiau a sgwrs cawsom ninnau y fraint a'r pleser o ddilyn y daith hynod ddiddorol honno.

Buom ar hyd milltiroedd o'r afon Nile a chael hanes y bywyd ar ei glannau, buom at y pyramidiau, gweld y cerfluniau anferth, a gweld bedd enwog Tutankhamen a'i addurniadau aur. Nid anghofia'r un ohonom daith hyfryd y pnawn yma, na dull di-hafal Mr Williams o'i chyflwyno.'

Diolchwyd iddo am sgwrs arbennig o ddifur ac addysgiadol gan Mr R. H. Parry. Gofalwyd am y paned a'r Raffl gan Mrs Eluned Hughes a Miss E. Hughes. Enillwyd y Raffl gan Mrs G. Chick.

Cyfarfod blynyddol dathlu Gwyl Dewi fu ar Fawrth 8, pryd y darparodd Mr R. H. Parry raglen Eisteddfodol ar gyfer yr aelodau, a chafwyd pnawn difyr a hwyliog, gan i nifer dda roi cynnig ar y tasgau. Dyma'r canlyniadau:

Llinell Goll: 1, Miss E. Hughes; 2, Mr Llew Hughes. Gorffen Pennill: 1, Llew Hughes; 2, Mrs E. M. Jones. Lluio Cerdd: 1, Mrs G. Chick; 2, Mrs K. Watkins. Triban: 1, Mrs K. Watkins; 2, Mr Ll. Hughes. Lluio Brawddeg: Miss E. Hughes. Lluio llythyr yn gwneud cais i gymeryd rhan yng nghystadleuaeth 'Miss World': 1, Mrs Watkins; 2, Mrs Eluned Jones. Gorffen Pennill: 1, Mrs Watkins; 2, Mr Llew Hughes. Parodi: 1, Mrs Chick; 2, Mr Llew Hughes.

Yn dilyn mwynhawyd lluniaeth amheuthun o fwydydd Cymreig, a ddarparwyd gan yr aelodau. Rhodddwyd y raffl gan Mrs G. Chick, ac enillwyd ef gan Miss E. Hughes.

Diolchodd y llywydd i bawb am eu cyfraniad ac yn arbennig i Mr R. H. Parry am drefnu'r rhaglen.

CYFLENWYR PORTHIAN
IDRIS MORRIS
BWYDYDD ANIFEILIAD ANWES
GWERTHWYR NWY

Y Fachell
Llanddeiniolen
Ffôn:
Port Dinorwig 670439



I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnïo
**MENAI SEWING
MACHINE CENTRE**
40 Stryd Fawr
PORTHAETHWY
Ffôn: (93) 714043
neu
Caernarfon 4520
edau, nodwyddau
ac ati mewn stoc

Agor Ffiniau'r Gorffennol

Gan Mary Lloyd Williams, B.E.M.

GLAW'R ATLANTIG

Wele yntau, glaw'r Atlantig - gallodd
Ein gwella heb ffisig;
Parodd i ladd pob perig
A'r fflw a'th glodd, drodd o'th
drig.

Glan Rhyddallt

Clywais fy niweddar dad, Glan
Rhyddallt yn dweud fel hyn: 'Yn
fy marn i y mae rhew ac eira yn
dwyn afiechydon i'w canlyn. Y
glaw o'r de-orllewin sy'n puro'r
awyr ac yn dwad a iechyd i'r
claf.'

'Ond cred llawer o bobl ydyw
fod tywydd rhew ac eira yn
dywydd iach, a bod gwynt sych
oer o'r gogledd rhewlyd a'r
dwyrain deifiol yn gwneud lles.
Ond nid dyna fy marn i.' Beth
yw eich barn chwi?

Un o drysorau pennaf pob un
ohonom ydyw meddu iechyd da
yn y meddwl a'r corff. Y mae
bwyta'n ddoeth yn chwarae rhan
mawr mewn cadw'r teulu'n iach
ac yn gryf i wrthwynebu
afiechydon.

Rhaid i bawb gael dŵr os am
iechyd a diolch fod gennym
ddigon ohono.

Y mae mwy o bobl yn marw
yn y gaeaf oer nag sydd yn marw
yn yr haf. Y mae hyn yn profi fod
oerni yn lladd.

Meddai'r bardd (pwy oedd o?)

'O na byddai'n haf o hyd,
Gaeaf mewn trawyddol grud,
Neb yn ofni tywydd garw,
Neb mewn poen a blinder chwerw
Neb yn cwyno, neb yn marw,
O! na byddai'n haf o hyd.'

Felly, fe ddylem gael bwyd da a
digon o ddillad cynnes os am
gadw'n iach.

Cofiaf am rywun gartref o dan
y fflw. Doedd dim posib mynd
gam o'r tŷ oherwydd y rhew a'r
eira, ond fe drodd y tywydd a
chafwyd glaw. Daeth y claf yn
well a chafodd fynd allan.

Cawn fyd gwell ar hyn bellach - daw
yr haf,

Nid oer hin mwyach;
Wele'r gôg pwy'n fywiocach
Crwydro bu'r creadur bach.

Owen Dinorwig.

Y Pen a'r Llaw

Dywedodd rhyw ŵr doeth
unwaith fel hyn 'The hand is the
gateway to the brain'. Y mae'r
syniad fod y llaw yn agoriad i'r
meddwl yn syniad cywir iawn yn
fy marn i.

Bu amser pan fyddai'r pen yn
cael y sylw mwyaf ac nid y llaw.
Mewn geiriau eraill byddai
llyfrau yn cael mwy o sylw nag
arfau gwaith. Ond y mae pethau
wedi newid yn ddirfawr. Ar un
ystyr y mae crefft yn rhagori
llawer ar yr wyddor.

Heb os, y mae'r llaw yn
blaenori'r meddwl. Rhaid
gwneud rhywbeth gyda'r llaw
cyn y gall y meddwl weld ei
ogoniant.

Dywedir yn hanes y creu yn y
Beibl: 'A gwelodd Duw mai da
oedd'. Y gamp fawr yw
disgyblu'r llaw a'r meddwl i gyd-
rodio. Y llaw sy'n arwain y
meddwl ac yn awgrymu pethau
iddo na fuasai byth wedi eu
canfod ar wahan.

Y mae'r byd yn sylweddoli yn
fwy heddiw nag erioed fod angen
gweithwyr celfydd - y 'skilled
men'.

Bu amser pan fodlonai'r
ysgolion ar wneud plant yn
ddysgedig yn y tair 'R' - reading,
writing, arithmetic.
Cynhyrchwyd miloedd o bobl
ddysgedig, a'r rhan fwyaf
ohonynt yn anghelfydd.

Gwallau

Peidiwch ag edrych am wallau
Wrth deithio drwy'r byd,
Ac er i chwi eu canfod
O hyd ac o hyd,
Mae'n well bod yn gall
Ac ar brydiau yn ddall
Ac edrych am y rhinweddau
Sydd tu ôl i'r ffaledau.

R. Y. B.

Cloc Bywyd
III a IV, tra hoff adeg - VIII, IX,
A daeth nos ar redeg:
Hen awr ddu yw XI,
Ni chawn ond I ychwaneg.

Pwy yw ei hawdur?

Cyfarch y Flwyddyn Newydd
Blwyddyn heb wyl iddi - a
bwyddyn

Heb ludded i'ch poeni;
Blwyddyn fras, blwyddyn o fri,
Hefo iechyd fo ichwi.

J. R. Morris

Fy Hen Gymraeg
Os medraf godi ymhen canrif arall
Ac estyn wedyn ganmlwydd at fy oed,
Caf weld y byd a ddaw yn dechrau
deall
Stori y Gŵr na wnaeth o gam erioed.
Ac am fy mod yn Gymro fel fy
nhadau
Caf ddarllen bob rhyw hanes yn fy
iaith,
A thebyg iawn, ddatganu megis
hwythau
Yr 'O! fy hen Gymraeg!' heb wyl
chwaith.

J. R. Morris

LLANBERIS

Y mis hwn, mae Mrs Lola Sellers yn 'ymddeol' o'i gwaith fel gohebydd
newyddion y pentref. Diolchwn iddi am ei gwaith.

Y gohebyddion newydd fydd Gwyneth ac Eifion Roberts. Gellir gadael
newyddion ym Mecws Eryri neu yn y siop. (Ffôn: 870491). Croeso i chwi
i dîm yr Eco, a phob diolch am fod mor barod i gynorthwyo.

DIOLCH: Dymuna Enfys, Walter
a'r teulu 'Noddfa', ddiolch i pawb
am bob arwydd o gydymdeimlad
a ddangoswyd tuag atynt yn eu
profedigaeth. Diolch am y cardiau,
llythrau a'r rhoddion o £450 tuag
at Plas Pengwaith a Ward Gwyrfa,
Ysbyty Bryn Seiont, Caernarfon.
GWELLHAD: Dymunwn wellhad
buan i'r rhai canlynol: Iestyn
Pritchard, Dol Elidir, sydd wedi
cael damwain; Mrs Catherine
Williams, 6 Rallt Goch; Deion
Hughes, Blau Ddol; Nicole Hughes,
17 Dol Elidir; Mrs Rhiannon
Roberts, Dol Elidir; Mr Iorwerth
Williams, Lon Tŷ Du; Melanie
Sellers sydd yn ysbyty'r Fyddin yn
Bicester ar ôl damwain i'w choes.
PRIODAS: Llongyfarchiadau i
Alison a Gareth ar achlysur eu
priodas yn Eglwys St. Padarn ar
Fawrth 10.

LLONGYFARCHIADAU i Ann a
Bert Parry, Preswylfa, ar achlysur
eu Priodas Berl.

GENI: Llongyfarchiadau i Menai a
Neil, gynt o 25 Dol Elidir, ar
enedigaeth eu merch fach, chwaer
fach i Sarah.

DIOLCH: Dymuna Mrs Glenys
Owen ddiolch i'w theulu, ffrindiau
a chymdogion am y cardiau a phob
arwydd o garedigrwydd a
ddangoswyd tuag ati tra yn yr
ysbyty.

CYDYMDEIMLO: Cydymdeimlwn
â John Rhys, Ifan, Philip,
Goronwy, Dafydd a Gwynfor a'r
teulu oll yn eu profedigaeth o golli
tad yng nghyfraith a taid sef Mr Jo
Williams, Llanrug.

Cydymdeimlwn efyd â Mrs Carr,
Dennis a Mary Lyn yn eu
profedigaeth o golli priod a thad sef
Mr Carr, Maes Padarn.

DIOLCH: Dymuna Mrs Catherine
Williams, Rallt Goch, ddiolch i'w
theulu, ffrindiau a chymdogion am
y cardiau a'r anrhegion a
dderbyniodd tra yn yr ysbyty.

Dymuna Melanie ddiolch i'w
theulu a'i ffrindiau am bob arwydd
o garedigrwydd tuag ati tra yn yr

ysbyty yn Bicester.

Dymuna Mr John Rhys Owen a'i
frodyr, a'r teulu oll ddiolch am bob
arwydd o gydymdeimlad a
ddangoswyd tuag atynt yn eu
profedigaeth o golli eu mam sef
Mrs Enid Owen, Dôl Eilian.

SEFYDLIAD Y MERCHED:
Cynhaliwyd cyfarfod mis
Chwefror yng Ngwesty Victoria lle
buom yn dathlu Gŵyl ein
nawddsant.

Llywyddwyd y cyfarfod gan Mrs
Hannah Jones. Dymunwyd
adferiad buan i Mrs Katie Griffith,
hefyd Mrs Jan Davies sydd wedi
cael triniaeth lawfeddygol yn yr
ysbyty.

Mynegwyd cydymdeimlad at
farwolaeth Mrs Lizzie Jones a
oedd yn aelod ffyddlon o'r
Sefydliad ers blyneddau.

Ar ôl gwledd ardderchog
croesawyd Mrs Dilys Bayliss a
chafwyd sgwrs ddiddorol iawn
ganddi am gymeriadau doniol ym
mhobl a phlant, a hefyd Dewi
Sant.

Diolchwyd i Mrs Bayliss gan Mrs
Dilys Phillips a Mrs Glenys Jones.
YN YR YSBYTY: Drwg gennym
glywed bod Mr William Christmas
Jones, 3 Blaen y Ddol wedi cael ei
gipio i'r ysbyty yn ddiweddar.
Gobeithio y caiff wellhad buan.
SALWCH: Dymunwn wellhad
buan i Mrs Eirlys Jones, Maes
Padarn, sydd ddim wedi bod yn
rhy dda yn ddiweddar.

DRAENOG



Glywsoch chi am y wraig o'r fro
oedd ar frys i fynd i'r tŷ bach wrth
yr 'Empire' yng Nghaernarfon?
Wrth olchi ei dwylo y sylwodd fod
y lle'n llawn o ddynion! Ac yn ei
brys i ddianc oddi wrth yr embaras,
ceisiodd agor drws car diarth!

GWASANAETHAU ARIANNOL

ERYRI

FINANCIAL SERVICES



41B STRYD FAWR
LLANBERIS

Ffôn: 872003



Guardian
Royal
Exchange

loutre

GARTH MAELOG

PET CENTRE AND GROOMING SALON

Bwyd ac anghenion
Anifeiliaid anwes bychan
Pysgod dwr oer
Offer pysgota

Molchi, cribo a chipio
cwn a chathod
o bob math
gan arbenigwr

STRYD FAWR, LLANBERIS 870840

BYCHAN O FYD

John Ellis Williams

Dywedodd un o'm cyfoedion, Mrs Mary Davies, Llys y Gwynt, Penisa'rwaen wrthyf yn ddiweddar, fod ei chwaer Helen, sy'n trigo yn Awstralia, wedi ael nifer o lyfrau gan rhywun a oedd awydd cael gwared â hwy.

Yn eu mysg, meddai Mary, roedd yna lyfr duwinyddol Cymraeg, ac ar y wynebddalen roedd y canlynol: Ellis Williams, Gors Farm, Penisa'rwaen. Roedd hyn o gryn ddiddordeb i mi, gan mai f'ewythr (brawd fy nhad) oedd y dyn yma. Ond beth sy'n syndod ynglŷn â'r darganfyddiad yma yw ei fod wedi ei ladd yn y Rhyel Mawr ers tros saith deg o flynyddoedd. Mwy syn byth efallai yw'r ffaith mai Helen, o bawb ar gyfandir Awstralia a ddarganfyddodd y llyfr. Roedd wedi ei werthu mae'n debyg pan wasgarwyd ei eiddo ar ôl iddo gael ei ladd.

Roedd ganddo ffarm ddefaid yn New South Wales a daeth trosodd i Ffrainc gyda'r ANZACS mewn pryd i gymeryd rhan yn y frwydr fawr pan anfonwyd yr Awstraliaid ar fyr rybudd i ddal y lein ger Villers Brettoneux y tu allan i Amiens ar ôl i'r Almaenwyr ei thorri yn Ebrill 1918. Mae yna gofeb fawr iddynt yno, ac mae Ellis wedi ei gladdu mewn mynwent fechan ger Hangard Woods gyda dau arall o Awstralia yng nghanol Ffrancwyr. Yn ôl yr adroddiad saethwyr hwy ar batrol gan snipers. Ymwelais unwaith â'r fan.

Yn rhyfedd iawn, yn yr un twymiad, daeth i'm meddiant lythyr wedi ei sgrifennu gan rhyw sergeant James Blockwood Turner, Australian Imperial Force, i'w wraig Daisy yn Awstralia yn disgrifio'r frwydr honno. Dyma fy nghyfieithiad llac i ohono:

15 Ebrill 1918

Annwyl Dais,
Wel dyma fi ym mhen draw Ffrainc yn stopio'r Hun gael beth mae o isio, ac mae hi wedi bod yn dipyn o shift mi ddeuda i wrthat ti, ond mi roedd o i gyd yn ei werth o, ac mi rydan ni wedi gwneud enw i ni ein hunain yn Ffrainc nad aiph rawg o gof. Roedd petha yn edrych yn ddrwg pan gawson ni'r newydd am y toriad, ac yr oedd y Division i gyd ymhell oddi yma yn gorphwys, ond mi dorwyd

hwnnw yn fyr yng nghanol y nos gan y Boss yn dweud wrthan ni am symud ymhen pum munud, fod Fritz wedi torri drwodd a bod rhaid i ni ei stopio fo. Ac i mewn yr aethon ni. Roedd hi'n edrych yn rhyfedd pan ddaethon ni yn agos i'r lle, achos fedrat ti weld dim ond Australians yn mynd i fyny, a ffrydia di-bendraw o griwiau wedi torri eu hysbrydoedd yn mynd y ffordd arall. Roeddau nhw'n dweud: 'Mi ewch ar eich penna i Jerry cyn cyrraedd y pentra nesa,' a dyma ninna'n dweud, 'go dda, mi rydan ni wedi dod ddigon pell i'w gyfarfod o, ac fel mae pethau yn edrych, gorau po gynta, mi stopian ni ei gerddediad o.' Doedd neb arall yn awyddus i aros ar ei lwybr o.

Wel mi ddaru ni ei gyfarfod o yn olreit, ac mewn un lle yr oeddau nhw yn dwad yn braf a'u rifles ar draws eu sgwyddau, a dyma nhw'n gofyn i'r hogia roi i fyny fel yr oeddau nhw wedi gwneud efo'r lleill. Ond pan welodd un swyddog fathodyn Awstralia ar ein dillad ni bu bron iddo a chael ffit! Roedd o'n siarad Saesneg. 'Good Gawd we didnt think there were any Australians here,' medda fo. Wel mi ddechreuodd y frwydr y noson honno, ac mae o'n dipyn i'w ddewud ond mae o'n wir, fod y trydydd a'r pedwerydd Division wedi atal y diawl, a dydy o ddim wedi dod yn ei flaen fodfedd ers i ni ddod allan o'r loris y noson honno; mae nhw'n



Ellis Williams yn Ffrainc

ardderchog o ddynion, ac mae rhywun yn falch i fod yn un ohonyn nhw.

Mi ddaeth yna rhyw Gaptan Saesneg yma heddiw, a dyma ni'n gofyn iddo fo oedd o'n meddwl ein bod ni wedi stopio Jeri. 'We have not,' medda fo 'but you have, you are the best fighting men the world has ever seen.' Dyma ni'n diolch iddo fo,

ac mi roedd y diawl gwirion wedi mynd yn rcs i gyd. Ein hordors ni oedd, 'you are not to leave this trench while a man lives'. Wel fe ddaeth yr Hun - un don-ar-ddeg ohono fo, a dyma ni'n eu troi nhw yn bentyrau o feirwon. Mi gychwynnodd y ddeuddegfed don ac allan â ni y trydydd, i'w cyfarfod hefo dur oer pan oedd yr haul yn machlud. Roedd hi'n olygfa fendigedig, ac yn golygu popeth i'r pen yma o'r lein.

Roeddau ni fel un dyn a'n bidogau ni yn sgleinio yn haul y machlud, ond yr oeddau nhw yn fuan iawn wedi eu rhoi i bwrpas arall, ac mi roedd hi'n ta-ta i'r Hun. Mi ddaru ni ei guro fo yn ei ôl, ein lein fach deneu ni. Pe tasa gynon ni fwy o hogia fel hyn mi fasa ni yn Berlin mewn wythnos.

Mi rydan ni hefo'r Ffrancwyr rwan, ac mae nhw yn hen hogia iawn ac yn gallu ymladd fel cythreuliaid, ac mae nhw'n hoff iawn o'n hogia ni. Mi ddaru nhw achub y lein yn olreit ...

Wel mi rof y gorau iddi rwan a mynd i fy ngwely. Mae Roy yma yn barod. Mae o yn iawn. Mi rydw i'n dal i fod yr un hen chwecheiniog.

J. B. T.

GAIR O BROFIAD

Mae'n bosib diodde'
Hen gythral blin,
Ond mae'n anodd closio
At ddiawl bach dan dîn.

SELWYN GRIFFITH

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

Castell Cidwm



Dewch i gael bwyd ym Mwyty'r Pysgotwyr, GWESTY CASTELL CIDWM ar lan Llyn Cwellyn. Coginio Prydeinig, yn gynnil o wahanol. Gwinnoedd diddorol. Tân Coed. Clustogau Cyfforddus. Golygfeydd Hardd. Lle rhagorol i ymlacio.

Betws Garmon, Ffôn: Waunfawr 243

MAE'R

SAMARIAID
YN GWRANDO,
YN ABBEY ROAD



BANGOR
354646

**AM EICH HOLL ANGHENION YSWIRIANT - Y TY A'I GYNNWYS
CAR - BUSNES - SIOP - CYFRIFOLDEBAU CYHOEDDUS A.Y.Y.B.**
Cysylltwch â Robin Jones, F.Inst.I.C. Ymgynghorwr Yswiriant Annibynnol

ROBIN JONES A'I GWMNI

Llys Alaw, 18 Stâd Eryri, Bethel. Ffôn: 93 670140

Hefyd yn Stryd y Bont, Llanrwst, Gwynedd LL24 OET. (0492) 641154 (0492) 641840

- ★ Brocer Credyd Trwyddedig.
- ★ Cymrawd o'r Institiwt Ymgynghorwyr Yswiriant.
- ★ Gwasanaeth yn eich cartref drwy drefniant.

Telerau arbennig am yswiriant cynnwys eich ty, gyda gostyngiad ychwanegol yn y pris, o hyn tan ddiwedd mis Mawrth 1990.

ASiantaeth Swyddogol Gyda Holl Brif Gwmniau Yswiriant ac yn Lloyds.

SEFYDLWYD 1983

Dyddiadur y Mis

Mawrth

31. **Sadwrn:** YR ARDAL: Rali — Dim Treth y Pen. 2.00 o safle'r hen orsaf, Caernarfon, i Ysgol Maesincla.

Ebrill

1. **Sul:** CWMYGLO: Clwb Ieuencid — Trip i Alton Towers.
2. **Llun:** DEINIOLEN: Sefydliad y Merched. DINORWIG: Y Ganolfan, 7.30. Cyfarfod i drafod sefydlu Clwb Plant.
3. **Mawrth:** DEINIOLEN: Undeb y Mamau.
4. **Mercher:** CWMYGLO: Undeb y Mamau.
5. **Iau:** WAUNFAWR: Sefydliad y Merched. YR ARDAL: Ysgol Brynrefail, Llanrug — Cyfarfod Teyrnged i Dr Dan R. Hughes, 7.30 o'r gloch.
6. **Gwener:** BETHEL: Plaid Cymru. Noson gyda Dafydd Iwan a'r Band yng Nghlwb Criced Llandegai, 8.00. DEINIOLEN: Bingo yn Ystafell y Band, 8.00. DINORWIG: Noson Hwyl a Chân, yn y Ganolfan, 7.00. GLYNLLIFON: Noson Gaws a Gwin gan bwyllgor Dysgwyr yr Urdd, 7.30.
10. **Mawrth:** LLANRUG: Merched y Wawr yn Festri Capel Mawr, 7.30.
11. **Mercher:** CWMYGLO: Gyrfa Chwist yn yr Ysgol Gymuned, 7.15.
13. **Gwener y Groglith:** DINORWIG: Eglwys Santes Fair. Gwasanaeth Litani a Phregeth, 9.30; Gorymdaith o'r Eglwys, 2.15;

Gwasanaeth, 3.00.

15. **Sul y Pasg:** DINORWIG: Eglwys Santes Fair, Cymun Teuluol, 10.00.
18. **Mercher:** CWMYGLO: Tombola gan bwyllgor NSPCC yn yr Ysgol Gymuned. Drysau'n agor 7.00, i ddechrau 7.30.
20. **Gwener:** DEINIOLEN: Bingo yn Ystafell y Band.
22. **Sul:** DEINIOLEN: Ebeneser — Cymanfa, 2.00.
25. **Mercher:** LLANRUG: Plaid Cymru — Ffair Wanwyn yn yr Ysgol Gynradd, 7.00. CWMYGLO: Gyrfa Chwist yn yr Ysgol Gymuned, 7.15.

ROYAL VICTORIA HOTEL

LLANBERIS 870149

- ★ Bwyd da ★ Cwrw da
- ★ Cwmni da



GWYNETH ROBERTS

84 Stryd Fawr, Llanberis
Ffôn: 870491

PAENT, PAPUR WAL
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION



Bara Ffres
Teisennau

Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati,
Peis, Rholiau Sosej,
Pasteiod, Teisennau Hufen,
Teisennau Plât, Torth Gyrains etc.

BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491

GLADRAGS LLANBERIS

PAM MYND I
GAERNARFON,
BANGOR AC
YMHELLACH
HEFO DILLAD I
BOB OED A
MAINT YMA'N
LLANBERIS AM
BRISIAU BAR-
GEN?

Be ga i'n bresant?

- Dewch yma am
- * Dillad Merched
- * Dillad Dynion
- * Dillad Plant
- * Dillad Gwlad
- * Mohair ac Aran
- * Dillad Lledr
- * Dillad Isa
- * 'Accessories' fel bagiau
- * a llawer mwy

CYNNIG
ARBENNIG



Yn rhatach os
dangoswch yr
hysbyseb hon

GALWCH I BRYNU BARGEN!

RALI DIM TRETH Y PEN CAERNARFON

SADWRN, MAWRTH 31

Cynull am 2 o'r gloch ym Maes
Parcio yr Hen Orsaf wedyn
Gorymdeithio i Ysgol Maesincla

Saradwyr:- **Dafydd Iwan**

Dafydd Wigley A.S.

Cadeirydd:- **Rhodri Davies Ll. B.**

CHIROPODIST

Gwasanaeth yn
eich Cartref

E. Ll. Parry

M.S.S.Ch., M.B.Ch.A.

57 Glanffynnon

LLANRUG

Ffôn:

Caernarfon

5754

Beth am ddysgu
dreifio gydag

YSGOL YRRU

BETHEL

Cysylltwch â

Richard M. Hughes

42 Bro Rhos, Bethel

Portdinorwig

671009

CARTREF NYRSIO PENISARWAUN

★28 Stafell Wely Sengl gyda thy bach a lle
ymolchi

★2 Stafell Wely Ddwbl gyda "en suite"
(delfrydol i barau priod)

★Gwres canolog llawn

★Sustem ddiogelu rhag tân

★Eisteddfa fawr gyfforddus efo teledu lliw

★Sustem alw nyrs

★Yn Cwrdd â phob angen personol

★Lle bwyta mawr

★Aros cyfnod hir/byr

★Gofal 24 awr y dydd gan staff proffesiynol

★Croesawir rhai gyda cymorth D.H.S.S.

★Ymwelwyr yn cael galw unrhyw adeg

★Coginio cartefol

★Metron a staff sy'n siarad Cymraeg

★Ar lwybrau bws o Fangor a Chaernarfon

Am fanylion pellach cysylltwch â'r

Metron Cheryl Williams, Ffôn 872038.

CHWARAEON

DATHLU CANMLWYDDIANT

Mae Clwb Peldroed Llanberis eleni yn gant oed, ac eisoes fe drefnwyd i ddathlu'r achlysur mewn o leiaf ddwy ffordd uchelgeisiol dros ben.

Bu Arwel Jones wrthi ers misoedd lawer yn paratoi llyfr y gobeithir ei gyhoeddi cyn y Nadolig. **'Y Darans, Canrif o Chwarae Pêl-droed yn Llanberis'** yw'r teitl, ac fe gynnwys storïau a hen luniau yn ymwneud â'r clwb ers y dechrau. (Gyda llaw, os oes rhywun â deunydd yn eu meddiant sy'n ymwneud â'r Clwb, byddai'n hynod o ddiolchgar pe baech yn cysylltu ag ef ym Mhant Hywel, Penisarwaun).

Mae pwyllgor y clwb wedi trefnu Cinio Sportsymyn i'w gynnal yng Ngwesty'r Victoria yn y pentref am 7.00 o'r gloch nos Wener, Mai 25.

Deallir fod ychydig o docynnau ar gael am £12 (hynny'n cynnwys cinio 3 chwrs), ac i'r rhai ohonoch sydd â diddordeb yn y gêm, cewch wrando ar dri o enwogion y maes yn adrodd eu profiadau.


Un o Ddeiniolen ydi Malcolm Allen, sydd newydd ymuno â Millwall o Norwich. Bu hefyd yn chwarae dros Watford, Bangor, Llanberis ac wrth gws, dros Gymru.

Bu John McLelland yn cynrychioli Gogledd Iwerddon ym

mhencampwriaeth Cwpan y Byd ddwywaith, ac ymhlith y clybiau y bu'n chwarae trostynt mae'n cynnwys Caerdydd, Bangor, Mansfield, Watford, Glasgow Rangers a Leeds.

Orig Williams, neu El Bandito yw'r trydydd siaradwr gwadd. Yn fwy enwog yn lleol am ei gampau ar y maes peldroed nag yn rhyngwladol, efallai, ond bu'n reslo ym mhob twll a chongl o'r hen fyd yma.

Arwel Jones fydd arweinydd y noson, ac fe'ch cynghorir i gysylltu â Iwan Williams (870515) neu unrhyw aelod o'r pwyllgor yn fuan iawn os am sicrhau tocyn.



Malcolm Allen

PWY SY'N GWYBOD ?

Mae'n ymddangos fod y syniad o gynnwys cwis ar y dudalen ôl wrth fodd llawer o'r darllenwyr, ac fe gefais aml i gais yn ystod y mis am rai o atebion y mis diwethaf.

Wel, dyma nhw, a rhyw ddeg cwestiwn arall i ymarfer yr ymenydd am fis arall.

Pêl-droed Americanaidd mae Oakland a Green Bay yn chwarae. Mae **Derry** wedi cynrychioli Iwerddon a Gogledd Iwerddon mewn cystadleuthau peldroed Ewrop. **Lyn Davies** enillodd y fedal aur ar y **naid hir** yn 1964; **Ray Reardon** oedd pencampwr cyntaf 'Pot Black'; yn 1964 ddaeth Muhammad Ali yn bencampwr gyntaf. **Gwyddbwyll** yw gêm Karpov a Fischer; **Marchwiel** enillodd y tlws criced i bentrefi yn 1980; **Gymnasteg** oedd camp Nelli Kim; **Nijinsky** yn 1970 oedd atebion y cwestiwn ar rasio ceffylau a'r chwaraewr tenis bwrdd a thenis lawnt oedd **Fred Perry**.

Barod am chwaneg?

1. Ym mha wlad y ganwyd y chwaraewr tenis John McEnroe?
2. Pwy yw'r unig chwaraewr sydd wedi sgorio dros ddau glwb gwahanol mewn gemau terfynol cwmpan yr FA yn Wembley? (nid yn yr un gêm — h.y. heb gyfrif 'own goals')
3. Pa gae rasio ceffylau ym Mhrydain a elwir y 'Roodee'?
4. Mae maeswr criced wedi tynnu ei helmed a'i gosod ar y llawr. Mae pêl a darawyd gan y batiwr yn ei tharo — sawl rhediad a ddyfennir i'r batiwr?
5. Baner pa wlad sy'n cael ei chario ar flaen gorymdaith athletwyr yr holl wledydd yng ngemau Olympaidd pob 4 blynedd?
6. Pa ddau dîm pêl droed Cynghrair Lloegr sy'n chwarae ar St. James' Park?
7. Pa dîm a achosodd syndod i bawb yng nghwpan y byd yn 1966 drwy guro'r Eidal o 1 gôl i 0?
8. Pa dîm peldroed o Gymru oedd yn aelodau o gynghrair Lloegr hyd at 1927?
9. Beth oedd enw'r ceffyl a gariodd Wille Carson i'w fuddugoliaeth gyntaf yn y Derby yn 1979?
10. Ym mha gêm y chwaraeir nifer o 'Chukkas'?

APÊL AM NODDWYR

Mae nifer o dimau yn Ysgol Brynrefail yn cystadlu mewn amrywiaeth o gampau, megis pêl-droed, hoci, pêl-fasged, pêl-rwyd, criced, athletau a.y.y.b., ac wrth gws, plant o bentrefi bro'r Eco yw aelodau pob un o'r timau hyn. Yn anffodus, oherwydd prinder arian, yn aml iawn hen grysau digon carpiog maent yn gorfod eu gwisgo. Mae'r adran Addysg Gorfforol yn yr ysgol yn awyddus iawn i wella ar y sefyllfa, ond yn ei chael yn amhosibl gan fod yn rhaid iddynt brynu offer a thalu am fysiau i deithio i'r gemau oddi cartref o'r ychydig arian a neilltuir ar eu cyfer.

Gwn fod nifer o fusnesau lleol eisoes yn noddi timau o bob oed yn yr ardal, timau pêl-droed fel arfer, ac fe garwn wneud apêl, fel golygydd chwaraeon yr Eco, am nawdd gan unrhyw berson neu fusnes lleol fyddai'n hoffi cyfrannu tuag at grysau neu git o unrhyw fath i dimau'r ysgol.

Gwn y byddent yn hynod falch o diolchgar o glywed gennych. Cysylltwch â Dic Parry, pennaeth yr adran Addysg Gorfforol.

CHWARAEON YSGOL BRYNREFAIL

Pêl Rwyd

Llongyfarchiadau i dîm pêl-rwyd dan 16 yr Ysgol am gyrraedd y Quarter Final yn nhwrnament Ysgolion Gwynedd ym Mangor yn ddiweddar. Perfformiad ardderchog. Fe gurodd y genethod eu grwp, gan drechu ysgolion Llangefni, John Bright, a Syr Hugh Owen, ond collwyd o 8 i 6 yn erbyn Dyffryn Conwy yn y Quarter Final mewn gêm agos iawn.

Y tîm yw: N. Houston, A Sellars, T. Massey, M Willis, L. Prydderch, M. Thomas, R. Rhagfyr, R. Morris. Miss Gwynedd Davies yw'r athrawes a welir yn y llun gyda'r genethod.



Hoci

Cafwyd perfformiad ardderchog hefyd gan dîm hoci'r Ysgol yn nhwrnament genethod Gwynedd yn Aber Conwy. Collwyd o 1-0 yn y rownd derfynol yn erbyn Ysgol Eifionnydd, Porthmadog. Yn y rowndiau blaenorol fe enillodd y genethod eu gemau yn erbyn Creuddyn, Ysgol y Gader, Glan-y-Môr, Y Moelwyn, Botwnnog, David Hughes a John Bright. Ardderchog iawn.

Y tîm yw: L. Murphy (Capt), T. Massey, L. Prydderch, A. Sellars, M. Willis, S. Kelly, J. Hornby, E. Parry, N. Houston, N. Powell, R. Rhagfyr, M. Thomas, J. Williams.



RHEDEG TRAWS GWLAD

Cafwyd achos i longyfarch Colin Jones a'i chwaer Carolyn unwaith eto am eu gorchestion mewn rhedeg traws gwlad. Ar Fawrth 3 bu'r ddau'n cystadlu ym mhencampwriaeth Ysgolion Cymru yn y Drenewydd. Ugeinfed oedd Carolyn yn y ras i enethod dan 15 oed, ac yn ôl ei arfer, fe enillodd Colin y ras i fechgyn dan 17.

Fel pencampwr Cymru, felly, nid yn unig y mae wedi ei ddewis i gynrychioli ei wlad ym Mhencampwriaethau Prydain yng Nghoventry ym mis Ebrill, ond

hefyd ef sydd wedi ei enwi fel capten tîm y bechgyn.

Llongyfarchiadau calonnog i'r ddau ohonoch.

PÊL-DROED

Llongyfarchiadau i Gavin Allen o Ddeiniolen ar gael ei ddewis i chwarae dros dîm dan 14 oed Ysgolion Gwynedd yn erbyn Ysgolion Clwyd ar gae ysgol Syr Hugh Owen ar y 24ain o'r mis.

Colli o 4 gôl i 2 fu hanes y tîm, ond deallir mai Gavin a sgoriodd un o goliau Gwynedd gyda chic rydd yn plannu i'r rhwyd dros bellter o 30 llath neu fwy.

CHWARAEWR Y MIS

Llongyfarchiadau i Dafydd Meredydd Jones, Pant Hywel, Penisarwaun, ar dderbyn yr anrhydedd o fod yn 'Chwaraewr y Mis' (Chwefror), yng nghynghrair MANWEB Canolbarth Cymru. Mae Dafydd yn chwarae pêl droed i Goleg y Brifysgol, Aberystwyth, ble mae'n fyfyrwr, ac er mai tymor ddigon gwael a brofwyd gan y tîm hyd yma, maent yn hanner isa'r tabl, mae'n amlwg fod Dafydd wedi denu llygaid y gwybodusion gyda'i berfformiadau unigol.

Mae hefyd ar lyfrau clwb peldroed Llanrug, ac yn chwarae'n rheolaidd iddynt pan ar ei wyliau o'r Coleg.

